Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Ministry of JUSTICE

# Ymateb i ymgynghoriad ynglŷn â'r diwygiadau a gynigir yn y Bil Cyrff Cyhoeddus

## Diwygio cyrff cyhoeddus y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Ymateb i Ymgynghoriad CP(R) 12/2011
15 Rhagfyr 2011

# Ymateb i ymgynghoriad ynglŷn â’r diwygiadau a gynigir yn y Bil Cyrff Cyhoeddus

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd
Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Rhagfyr 2011

Cm 8235 £14.25

**© Hawlfraint y Goron 2011**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) yn ddi-dâl a hynny ar unrhyw fformat neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi cyfeirio at unrhyw ddeunydd sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd perchennog yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn Nhîm Bil Cyrff Cyhoeddus y Weinyddiaeth Cyfiawnder – PBB.Consultation@justice.gsi.gov.uk, ffôn 020 3334 6298.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

ISBN: 9780101811620

Argraffwyd y ddogfen yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 2438748 07/11

Fe'i hargraffwyd ar bapur sydd ag o leiaf 75% o'i ffibr wedi'i ailgylchu.

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Papur ymgynghori a gyhoeddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw hwn. Mae'n ofyniad, fel y bo'n berthnasol, i ymgynghori â'r cyrff/unigolion hynny, a restrir yng nghymal 10 y Bil Cyrff Cyhoeddus, â gweinidogion Cymru a'r Alban ac â'r Arglwydd Brif Ustus. Serch hynny, bwriedir yr ymgynghoriad hwn hefyd ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb yn y Bil Cyrff Cyhoeddus a'r cynigion sydd ynddo ynglŷn â chyrff y Weinyddiaeth Cyfiawnder. |
| **Hyd:** | Rhwng 12/07/11 a 11/10/11 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am gael y papur ar fformat arall) i:** | Tîm y Bil Cyrff Cyhoeddus<br>Y Weinyddiaeth Cyfiawnder<br>Pwynt post 10.03<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br>Ffon: 020 3334 6298<br>E-bost: PBB.Consultation@justice.gsi.gov.uk |

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | 4 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Cefndir | 8 |
| Yr Ymgynghoriad - Crynodeb o’r ymatebion | 10 |
| Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd - Crynodeb o’r ymatebion | 11 |
| Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd - Ymatebion i gwestiynau penodol | 13 |
| Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd - Casgliad a’r camau nesaf | 16 |
| Byrddau'r Llysoedd - Crynodeb o’r ymatebion | 20 |
| Byrddau'r Llysoedd - Ymatebion i gwestiynau penodol | 21 |
| Byrddau'r Llysoedd - Casgliad a’r camau nesaf | 23 |
| Pwyllgor Rheolau Llys y Goron - Crynodeb o’r ymatebion | 25 |
| Pwyllgor Rheolau Llys y Goron - Ymatebion i gwestiynau penodol | 26 |
| Pwyllgor Rheolau Llys y Goron - Casgliad a’r camau nesaf | 27 |
| Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi - Crynodeb o’r ymatebion | 29 |
| Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi - Ymatebion i gwestiynau penodol | 30 |
| Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi - Casgliad a’r camau nesaf | 32 |
| Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon - Crynodeb o’r ymatebion | 35 |
| Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon - Ymatebion i gwestiynau penodol | 36 |
| Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon - Casgliad a’r camau nesaf | 37 |
| Swyddfa'r Prif Grwner - Crynodeb o’r ymatebion | 39 |
| Swyddfa'r Prif Grwner - Ymatebion i gwestiynau penodol | 41 |
| Swyddfa'r Prif Grwner - Casgliad a’r camau nesaf | 43 |
| Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus - Crynodeb o’r ymatebion | 45 |
| Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus - Ymatebion i gwestiynau penodol | 46 |
| Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus - Casgliad a’r camau nesaf | 47 |
| Yr Archifau Gwladol - Crynodeb o’r ymatebion | 48 |
| Yr Archifau Gwladol - Ymatebion i gwestiynau penodol | 50 |
| Yr Archifau Gwladol - Casgliad a’r camau nesaf | 51 |

| | |
|---|---|
| Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr - Crynodeb o'r ymatebion | 53 |
| Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr - Ymatebion i gwestiynau penodol | 54 |
| Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr - Casgliad a'r camau nesaf | 55 |
| Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - Crynodeb o'r ymatebion | 56 |
| Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - Ymatebion i gwestiynau penodol | 57 |
| Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - Casgliad a'r camau nesaf | 60 |
| Y Meini prawf ymgynghori | 62 |
| Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr | 63 |

## Rhagair y Gweinidog

Ym mis Gorffennaf 2011 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder ymgynghoriad ar ddiwygio cyrff cyhoeddus drwy'r Bil Cyrff Cyhoeddus. Mae'r Bil, y mae disgwyl iddo gael Cydsyniad Brenhinol ar 14 Rhagfyr, yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i wneud diwygiadau radical i'w chyrff cyhoeddus, ac roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu'r achos dros ddiwygio cyrff o fewn y sector cyfiawnder. Elfen allweddol o'r broses ddiwygio yw'r cydbwysedd y mae'n rhaid ei sicrhau rhwng yr annibyniaeth sy'n hanfodol os yw rhai o swyddogaethau'r Llywodraeth am gael eu cyflawni'n effeithiol, a'r angen am fwy o atebolrwydd ac effeithlonrwydd. Rwyf yn falch o gyhoeddi heddiw yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder 350[1] o gyrff cyhoeddus – mwy nag unrhyw adran arall – ac rydym yn cynnig bod y ffigur hwn yn cael ei chwarteru o leiaf, i 265. Rydym hefyd wedi cyhoeddi y bydd yr adran yn arbed oddeutu £1.6 biliwn yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant cyfredol drwy gwtogi cyllidebau gweinyddol, rhaglen a chyfalaf ei chyrff cyhoeddus. Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn un rhan o'r pecyn hwn o ddiwygiadau; mae 13 o gyrff cyhoeddus y Weinyddiaeth Cyfiawnder o fewn cwmpas y Ddeddf a fydd un ai'n cael eu diddymu, eu huno neu eu diwygio.

Cafwyd 2,742 o ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffwn ddiolch i bob un o'r ymatebwyr am ei barn. Rydym wedi ystyried y sylwadau a wnaethpwyd yn yr ymatebion yn ofalus, yn ogystal â barn y rhai sydd wedi siarad ac wedi gohebu â'r adran yn ystod taith Seneddol y Bil.

Roedd yr ymatebion yn arbennig o gryf yn achos dau o'r cyrff yr ymgynghorwyd arnynt – swyddfa'r Prif Grwner a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – ac mae'r rhain yn ddau faes lle mae'r Llywodraeth wedi newid ei chynigion yn sylweddol i adlewyrchu safbwyntiau'r ymatebwyr.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu swyddfa'r Prif Grwner a defnyddio Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 i ddiddymu'r system apelio bwrpasol a oedd yn bodoli yn sgil Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Nid ydym yn awr ychwaith yn bwriadu diddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r Llywodraeth yn credu'n gryf y dylid cael mwy o atebolrwydd gweinidogol uniongyrchol am gyfiawnder ieuenctid, ac mae Gweinidogion yn awr yn ystyried opsiynau ar gyfer ei ddiwygio y tu allan i'r Ddeddf.


Nid yw taith Seneddol y Bil Cyrff Cyhoeddus yn golygu diwedd ar ddiwygiadau i gyrff hyd braich y Weinyddiaeth Cyfiawnder o bell ffordd. Yn hytrach, mae'n nodi dechrau cam nesaf o ddiwygiadau ar gyfer yr adran yn ogystal â rhannau eraill o'r Llywodraeth. Bydd offerynnau statudol sy'n defnyddio pwerau yn y Ddeddf a fydd yn gweithredu'r penderfyniadau a amlinellwyd yn y papur ymateb hwn yn cael eu cyflwyno o ddechrau 2012. Mae'r cynlluniau i gau'r cyrff hynny yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder sydd i gael eu diddymu neu eu diwygio, drwy'r Ddeddf hon a thrwy

---

[1] Gan gynnwys rhai lluosog

ddulliau eraill, eisoes ar waith. Mae’r llywodraeth hefyd yn cydnabod yr angen o bryd i’w gilydd i adolygu pob corff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn cynnig y gwerth gorau posibl i’r trethdalwyr ond gan gadw annibyniaeth lle mae angen.

Mae’r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar y ffordd i sicrhau cyrff cyhoeddus mwy atebol a symlach a fydd yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd agored a thryloyw, a hynny mewn ffordd sy’n fwy effeithlon ac atebol i Weinidogion a’r cyhoedd.



Y Gwir Anrhydeddus Kenneth Clarke QC AS
Yr Arglwydd Ganghellor a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

## Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ar ôl ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori, 'Ymgynghoriad ynglŷn â'r diwygiadau a gynigir yn y Bil Cyrff Cyhoeddus'.

### Yr Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 12 Gorffennaf 2011 a daeth i ben ar 11 Hydref 2011. Cafodd yr adran 2,742 o ymatebion. Ceir rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.

Ceir crynodeb yn y ddogfen hon o'r prif faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth iddynt.

Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal yn unol â'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori. Glynwyd wrth y meini prawf ymgynghori, a amlinellir ar dudalen 62.

Nid oes Asesiadau Effaith wedi'u cwblhau ar gyfer pob corff. Paratowyd Asesiadau Effaith yn achos y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (CCGTh), Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (AGLIEM) a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r Asesiadau Effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori yn dangos bod effaith ehangach y cynigion yn debygol o fod yn gyfyngedig gan y bydd swyddogaethau, pan yn briodol, yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'r adran i sicrhau ei bod yn dal i gael eu darparu. Nid yw'r cynigion yn debygol o arwain at gostau ychwanegol nac arbedion i fusnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol, na'r sector cyhoeddus. Mae Asesiadau Effaith wedi'u diweddaru wedi'u cwblhau ar gyfer CCGTh ac AGLIEM ac maent wedi'u cyhoeddi ar wahân ochr yn ochr â'r adroddiad.

Cafodd ymarferion sgrinio cychwynnol Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb hefyd eu cwblhau ar gyfer yr holl gyrff ac fe'u cyhoeddwyd gyda'r ddogfen ymgynghori. Edrychwyd eto ar yr ymarferion sgrinio hyn yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a, lle'r oedd eu hangen, cyhoeddwyd fersiynau wedi'u diweddaru ochr yn ochr â'r papur hwn.

Ceir rhagor o wybodaeth ar yr Asesiadau Effaith ac Effaith ar Gydraddoldeb yn y penodau dilynol sy'n berthnasol i bob corff.

Mae pob dogfen sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad ac ymateb y Llywodraeth, gan gynnwys fersiwn Saesneg o'r papur hwn, ar gael yn:
http://www.justice.gov.uk/consultations/reform-public-bodies.htm

Mae modd cael copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori neu fersiynau o'r cyhoeddiad mewn fformatau eraill drwy gysylltu â Thîm y Bil Cyrff Cyhoeddus yn y cyfeiriad isod:

**Tîm y Bil Cyrff Cyhoeddus**
**Y Weinyddiaeth Cyfiawnder**
**Pwynt post 10.03**
**102 Petty France**
**Llundain SW1H 9AJ**

**Ffôn: 020 3334 6298**

**E-bost: PBB.Consultation@justice.gsi.gov.uk**

## Cefndir

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei chynlluniau i ddiwygio cyrff cyhoeddus ar 14 Hydref 2010, gan ddiweddaru'r cynigion ym mis Mawrth 2011. Wrth gynnal adolygiad y Weinyddiaeth Cyfiawnder o gyrff cyhoeddus, aeth yr adran i'r afael yn gyntaf oll â'r cwestiwn cyffredinol sef a oedd angen i gorff fodoli ac a oedd angen cyflawni ei swyddogaethau o gwbl. Fel yn achos adrannau eraill y Llywodraeth, lle cafwyd ateb cadarnhaol, gosododd yr adran dri phrawf arall ar gyfer pob un o'i gyrff:

- a yw'n cyflawni swyddogaeth dechnegol?;
- a oes angen corff gwleidyddol ddiduedd i gyflawni ei weithgareddau?;
- a oes angen iddo weithredu'n annibynnol er mwyn sefydlu ffeithiau?

Petai'n pasio o leiaf un o'r tri phrawf hyn, ni fyddai corff yn cael ei ddiddymu. Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r adran wedi ystyried diwygiadau eraill hefyd, megis uno neu drosglwyddo swyddogaethau, fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i symleiddio cyrff cyhoeddus a dileu dyblygu.

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn rhoi fframwaith deddfwriaeth ar gyfer diwygio, gan roi pwerau i Weinidogion i gyflwyno newidiadau drwy orchymyn. Os nad oes diben mwyach i swyddogaeth corff neu os yw wedi cyflawni'r diben y'i crëwyd i'w gyflawni, y cynnig yw i ddiddymu'r corff. Mewn amgylchiadau priodol, byddai adran berthnasol y Llywodraeth yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw swyddogaethau penodol a gedwir, gan gynyddu atebolrwydd y Llywodraeth – un o brif nodau'r diwygiadau.

Mae'r cyrff a ddiddymir wedi'u cynnwys yn Atodlen 1 y Ddeddf. Cyrff yr adran yn Atodlen 1:

- Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd
- Byrddau'r Llysoedd (x19)
- Pwyllgor Rheolau Llys y Goron
- Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
- Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon
- Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus
- Y Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr

Mae atodlen 2 (pŵer i uno) yn cynnwys cyrff sydd eisoes wedi cael eu huno drwy drefniant gweinyddol. Drwy eu cynnwys yn atodlen 2, daw'r newidiadau gweinyddol yn ddeddfwriaeth. Cyrff sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 2 yw'r Cyfarwyddwr

Erlyniadau Cyhoeddus a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyllid a Thollau, y mae eu swyddi wedi’u huno’n weinyddol ers Ionawr 2010. Bydd ymgynghoriad ar wahân ar gynigion i wneud y ddwy swydd yn endid cyfreithiol sengl gan ddefnyddio’r pwerau yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn cael ei gynnal gan yr adran yn gynnar yn 2012.

Mae atodlen 5 (pŵer i addasu neu drosglwyddo swyddogaethau) yn cynnwys cyrff y mae angen deddfwriaeth cyn y gellir trosglwyddo swyddogaethau a chwblhau'r diwygiadau gweinyddol sydd wedi digwydd eisoes. Mae hefyd yn caniatáu trosglwyddo swyddogaethau penodol heb ddiddymu corff yn llwyr. Cyrff yr adran yn atodlen 5 y Ddeddf yw:

- Cyngor Cynghori am Gofnodion Cyhoeddus
- Llyfrfa Ei Mawrhydi
- Ceidwad y Cofnodion Cyhoeddus
- Y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus

Un o ofynion adran 8 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yw na chaiff Gweinidog ond wneud gorchymyn os mai barn y gweinidog hwnnw yw y bydd hynny'n gwella'r ffordd y cyflawnir swyddogaethau cyhoeddus, gyda golwg ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, arbedion a sicrhau'r atebolrwydd priodol i Weinidogion; a hefyd nad yw'n dileu gwarchodaeth angenrheidiol nac ychwaith yn atal neb rhag mynnu'r hawliau a'r rhyddid y mae'n rhesymol iddo'u disgwyl.

Fel sail i wneud y gorchmynion a fydd yn rhoi ein diwygiadau ar waith, cyhoeddwyd y papur ymgynghori ‘Ymgynghori ynglŷn â diwygiadau a gynigir yn y Bil Cyrff Cyhoeddus’ ar 12 Gorffennaf 2011. Roedd yn gwahodd sylwadau ar ddiwygiadau arfaethedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder i gyrff cyhoeddus er mwyn dileu dyblygu gwasanaethau, cynyddu atebolrwydd Gweinidogion a symleiddio’r trefniadau ar gyfer cyrff cyhoeddus.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 11 Hydref 2011 ac mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r ymatebion, gan gynnwys sut y dylanwadodd y broses ymgynghori ar ffurf derfynol a datblygiad pellach y cynigion yr ymgynghorwyd arnynt.

## Yr Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

1. Hoffai'r adran ddiolch i bawb a aeth i'r drafferth i ymateb i'r ymgynghoriad.

2. Cafwyd cyfanswm o 2742 o ymatebion. O'r rhain, cafwyd 2607 o ymatebion yr un fath yn union ynglŷn â Swyddfa'r Prif Grwner a anfonwyd gan y cyhoedd drwy wefan y Lleng Brydeinig.

3. O ystyried amrediad y swyddogaethau y mae'r cyrff a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil Cyrff Cyhoeddus yn ymgymryd â hwy, roedd y 135 ymateb arall, gyda llawer ohonynt yn ymdrin â mwy nag un o'r cyrff a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad, wedi'u gwneud gan amrywiaeth eang o grwpiau ac unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y cyhoedd, grwpiau cynrychioliadol, elusennau, grwpiau cynghori, aelodau'r farnwriaeth a'r proffesiwn cyfreithiol, yn ogystal ag unigolion a sefydliadau â phrofiad penodol o'r systemau cyfiawnder ieuenctid a gweinyddol, y llysoedd a'r gwasanaeth crwnerol. Roedd pump o'r ymatebion yn ymdrin â phob corff yn yr ymgynghoriad, a daeth pedwar ohonynt gan y cyhoedd.

4. Mae'r penodau sy'n dilyn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd ar bob un o'r cyrff a dadansoddiad o'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i gynigion yr adran, a hefyd yr atebion a gafwyd i bob cwestiwn a ofynnwyd yn y papur ymgynghori. Dilynir hyn gan gasgliad yr adran a'r camau nesaf a gymerir yn achos pob corff.

## Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd – Crynodeb o’r ymatebion

1. Cafwyd 41 o ymatebion ynglŷn â’r cynnig i ddiddymu’r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (CCGTh). Daeth mwyafrif yr ymatebion oddi wrth unigolion (18 ymateb), gyda rhai ohonynt â chefndir academaidd neu broffesiynol yn y system cyfiawnder, ac oddi wrth sefydliadau proffesiynol a grwpiau cynrychioliadol (12 ymateb) sydd â chysylltiad penodol â chyfiawnder gweinyddol. Cafwyd pedwar ymateb gan elusennau. Rhoddodd y CCGTh ei hun ymateb manwl i gynigion y Llywodraeth a chafwyd ymatebion hefyd gan lywodraethau Cymru a’r Alban a chan Syr Robert Carnwath, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

2. Dadansoddwyd yr ymatebion ar gyfer sylwadau am: y cynnig i ddiddymu’r Cyngor; y gwerth a roddwyd ar swyddogaethau presennol y CCGTh gan gynnwys eu rôl annibynnol i roi trosolwg o’r system cyfiawnder gweinyddol; gallu a galluogrwydd swyddogion y Grŵp Polisi Cyfiawnder (JPG) yn yr adran i oruchwylio polisi cyfiawnder gweinyddol i roi cyngor amhleidiol ac arbenigol i Weinidogion; a yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) yn gallu diwallu anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd yn ddigonol yn dilyn diddymu CCGTh ac a oedd unrhyw swyddogaethau na fyddai’n cael sylw digonol ar ôl diddymu’r CCGTh.

3. Mae carfan yn credu y gellid cyfiawnhau diddymu’r CCGTh, ond roedd mwyafrif yr ymatebwyr o’r farn na ddylid diddymu’r CCGTh. Mae Llywodraeth yr Alban yn fodlon i’r CCGTh a’i Gyngor yn yr Alban gael eu diddymu ac mae wedi bod yn ystyried pa drefniadau a ddylid eu gwneud yn yr Alban ar ôl ei ddiddymu. Roedd mudiad yn y maes cyfiawnder yn credu bod diddymu’r CCGTh yn gam rhesymegol yn dilyn ymgorffori’r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn y GLITEM. O blith yr unigolion a ymatebodd ar-lein, dywedodd un y dylai’r CCGTh gael ei ddiddymu ac roedd un arall o’r farn y byddai’n well diddymu’r CCGTh yn hytrach na gwasanaethau rheng flaen eraill.

4. Fodd bynnag, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr, gyda llawer ohonynt yn sefydliadau sy’n weithredol yn y maes cyfiawnder gweinyddol, mai cryfder y CCGTh yw ei fod yn sefydliad annibynnol sy’n rhoi trosolwg eang o’r system cyfiawnder gweinyddol ar draws y DU. Wrth edrych arno felly roeddent yn teimlo ei fod yn gallu cynrychioli defnyddwyr a chyflawni rôl holl bwysig i rannu arferion gorau, cyd-ddysgu a chydweithredu rhwng llysoedd, tribiwnlys ac ombwdsmyn. Mynegwyd pryder ynghylch pa drefniadau a wneir o ran goruchwylio tribiwnlysoedd sydd y tu hwnt i gylch gwaith GLITEM. Mynegwyd pryder arbennig ynghylch pa drefniadau a wneid o ran goruchwylio panelau derbyn a gwahardd o ysgolion sy’n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol; rôl y mae’r CCGTh yn gyfrifol amdani ar hyn o bryd. Tynnodd un mudiad sy’n cynrychioli pobl ag anableddau, ac sy’n gwrthwynebu diddymu’r CCGTh, sylw at brofiad y CCGTh o drosi dealltwriaeth o anghenion pobl ag anableddau dysgu i newidiadau a fydd yn gwella mynediad at y system cyfiawnder.

5. Mynegodd nifer o ymatebwyr amheuaeth ynghylch gallu swyddogion y JPG i gynnig trosolwg o'r system cyfiawnder gweinyddol a hefyd – ar adeg pan mae adnoddau'n brin – a fyddai gan y Grŵp ddigon o adnoddau i gyflawni'r dasg hon ac a allai ddarparu cyngor annibynnol i Weinidogion.

6. Er bod Llywodraeth yr Alban yn ystyried pa drefniadau y gellid eu rhoi ar waith yn dilyn diddymiad arfaethedig y CCGTh, roedd mudiad sy'n cynrychioli defnyddwyr yn yr Alban yn teimlo bod y system dribiwnlysoedd gymhleth yn yr Alban yn golygu y dylai Llywodraethau'r DU a'r Alban gydweithio i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith yn dilyn diddymu pwyllgor y CCGTh yn yr Alban. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd yn ymddangos bod y sefyllfa yng Nghymru wedi cael ei hystyried yn fanwl nac wedi cael sylw. Mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar raglen o Ddiwygio Tribiwnlysoedd ac roedd yn gobeithio y byddai'r CCGTh yn cynorthwyo'r rhaglen hon.

# Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd – Ymatebion i gwestiynau penodol

## Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd?

Nid oedd pedwar ymatebwr yn gwrthwynebu diddymu'r CCGTh, gan gynnwys un ymatebwr a oedd o'r farn ei fod yn gam rhesymegol yn dilyn sefydlu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM). Nid oedd dau ymatebwr wedi mynegi barn o blaid nac yn erbyn diddymu.

Roedd y 18 ymatebwr arall a atebodd y cwestiwn hwn yn erbyn diddymu'r CCGTh. Thema gyffredin yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd bod y CCGTh yn gorff gwerthfawr, yn annibynnol ar y Llywodraeth, a oedd yn gallu craffu ar y system cyfiawnder gweinyddol, cynnig trosolwg cyfannol ar y broses o'r naill ben i'r llall a sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn cael sylw.

Mynegwyd pryder hefyd gan nifer o'r ymatebwyr fod y trefniadau arfaethedig i ganiatáu i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder oruchwylio polisi cyfiawnder gweinyddol yn annigonol oherwydd yr ofnau o ddiffyg adnoddau, diffyg annibyniaeth a sylw annigonol i anghenion defnyddwyr.

Pwyntiau eraill a godwyd gan un neu ragor o'r ymatebwyr oedd:

- O ran yr adolygiad o'i gyrff cyhoeddus, roedd y CCGTh wedi pasio'r tri phrawf a osodir i bob un o gyrff cyhoeddus y Weinyddiaeth Cyfiawnder;
- Mae'r CCGTh yn gweithredu fel fforwm i randdeiliaid, gan gynnwys llysoedd, tribiwnlysoedd ac Ombwdsmyn, sy'n gyfle i rannu arferion gorau yn ogystal â datblygu ffyrdd o gydweithio;
- Pryder bod y trefniadau ar gyfer tribiwnlysoedd heblaw GLITEM yn aneglur. Roedd y pryder hwn wedi'i anelu at y Tribiwnlys Prisio a'r panelau derbyn a gwahardd o ysgolion. Mae gan y CCGTh rôl oruchwylio ar hyn o bryd yn achos panelau derbyn a gwahardd o ysgolion;
- Pryder bod y trefniadau i newid rôl Pwyllgorau'r CCGTh yn yr Alban a Chymru'n annigonol. Lleisiwyd y pryder hwn gan fudiad a ymatebodd sy'n cynrychioli defnyddwyr yn yr Alban a dynnodd sylw at natur gymhleth a thameidiog y strwythur tribiwnlysoedd yn yr Alban a'r ffaith nad oedd pob tribiwnlys wedi ei ddatganoli i Lywodraeth yr Alban.
- Pryder y byddai ei ddiddymu'n golygu na allai'r CCGTh gefnogi rhaglen Llywodraeth Cymru i ddiwygio tribiwnlysoedd.
- Mae'r CCGTh yn craffu ar waith Gweinidogion yn enwedig yn y maes polisi cyfiawnder gweinyddol. Roedd ymatebwr yn credu y byddai'r 'Llywodraeth yn craffu ar y Llywodraeth' ar ôl diddymu'r CCGTh.

**Cwestiwn 2: A oes unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.**

Roedd pedwar ymatebwr o'r farn nad oedd dim o swyddogaethau'r CCGTh na fyddai'n cael eu cyflawni'n ddigonol ar ôl y diddymu arfaethedig. Roedd 18 o ymatebwyr yn credu na fyddai un neu fwy o swyddogaethau'r CCGTh yn cael eu cyflawni'n ddigonol.

Mynegwyd pryder gan rai ymatebwyr, gan gynnwys nifer a ymatebodd i'r ymgynghoriad ond nad oedd wedi ymateb i'r cwestiwn hwn yn benodol, na fyddai dim o swyddogaethau presennol y CCGTh yn cael eu cyflawni'n ddigonol ar ôl y diddymu arfaethedig. Roedd nifer o ymatebwyr yn meddwl na allai un o Adrannau'r Llywodraeth efelychu goruchwyliaeth annibynnol y CCGTh dros gyfiawnder gweinyddol na'i bwyslais ar gynrychioli buddiannau defnyddwyr yn yr un modd. Cafwyd sylwadau gan ymatebwyr eraill ar arbenigedd a phrofiad aelodau'r Cyngor a oedd yn sail i gyflawni rôl bresennol y CCGTh. Fel yn achos ymatebion i gwestiwn un, nid oedd ymatebwyr yn credu y gallai un o adrannau'r Llywodraeth gyflawni rôl bresennol y CCGTh i weithredu fel fforwm ar gyfer rhanddeiliaid i rannu arferion gorau a datblygu trefniadau i gydweithio.

Tynnodd ymatebwyr sylw at swyddogaethau penodol na fyddai'n cael eu cyflawni'n ddigonol. Roedd y rhain yn cynnwys pryder na fyddai'r trefniadau i graffu ar benderfyniadau a pholisïau Gweinidogion yn ddigon annibynnol a thryloyw; y byddai angen ystyried beth fyddai'n digwydd i swyddogaethau Cyngor y CCGTh yn yr Alban ac y dylai Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU gydweithio i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith; ac na fyddai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gallu cyflawni rôl oruchwylio bresennol y CCGTh o ran panelau derbyn a gwahardd o ysgolion yn ogystal â'i rôl statudol i ymateb i ymgynghoriadau'r Adran Addysg.

---

**Cwestiwn 3: A gaiff y cynigion unrhyw effaith uniongyrchol o bwys arnoch chi?**

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u rhannu'n gyfartal gydag 11 o ymatebwyr (27%) yn dweud nad oedd y cynigion yn cael unrhyw effaith o bwys arnynt. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cynnwys rhai a oedd, mewn ymateb i gwestiwn 1, wedi dweud eu bod yn gwrthwynebu diddymu'r CCGTh.

O'r 11 ymatebwr (27%) a ddywedodd y byddai'r cynnig i ddiddymu'r CCGTh yn cael effaith uniongyrchol o bwys arnynt, dywedodd yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO) fod y CCGTh wedi gweithredu fel fforwm iddi hi'n benodol, ac i'r ombwdsmyn a'r sawl sy'n ymdrin â chwynion yn gyffredinol, i edrych ar rannau eraill o'r system ac i gael llais sy'n annibynnol ar y Llywodraeth sy'n rhoi pwyslais ar y dinesydd cyffredin. Byddai diddymu'r CCGTh yn cael yr effaith uniongyrchol o amddifadu fforwm a llais o'r fath i'r PHSO ac y byddai'n llesteirio

ymdrechion y PHSO i ffurfio'r agenda cyfiawnder gweinyddol drwy gyfeirio at y profiad empiraidd o ymdrin â chwynion dinasyddion.

Dywedodd un ymarferwr bod cyfle i gwrdd â gweithwyr proffesiynol eraill a chynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid yn fuddiol er mwyn cael gwrando ar eu pryderon a chyfnewid safbwyntiau.

Mynegodd Cymdeithas y Cyfreithwyr yr ofn na fyddai tribiwnlysoedd yn gallu cynnal y cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, o ganlyniad, bydd yn rhaid i Gymdeithas y Cyfreithwyr fonitro tribiwnlysoedd i sicrhau nad oedd safonau'n gostwng.

Mynegodd Llywodraeth Cymru yr ofn y byddai diddymu'r CCGTh yn digwydd ar adeg pan fydd ar ganol rhaglen i ddiwygio tribiwnlysoedd ac yn ystyried pa drefniadau monitro ac adolygu fydd eu hangen ar gyfer tribiwnlysoedd yng Nghymru. Nid oedd yn siŵr a fyddai pwerau deddfu Llywodraeth Cymru na Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn llenwi'r bylchau a adewid yn sgil diddymu'r CCGTh. Yr opsiwn a ffefrid gan Lywodraeth Cymru fyddai parhad y CCGTh, nes byddai'r rhaglen i ddiwygio tribiwnlysoedd wedi'i datblygu'n ddigonol.

# Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd – Casgliad a'r camau nesaf

1. Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Er bod rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i ddiddymu'r CCGTh, roedd y mwyafrif o blaid ei gadw. Yn fwyaf arbennig, mae'r CCGTh o'r farn bod y cynnig arfaethedig i'w ddiddymu yn annoeth ac na ddylid bwrw ymlaen. Y prif reswm yw'r dybiaeth na allai un o adrannau'r Llywodraeth gyflawni swyddogaethau'r CCGTh yn effeithiol, a'i fod yn annhebygol o gael adnoddau digonol.

2. Roedd y rhesymau eraill a wyntyllwyd gan y CCGTh yn datgan y farn y byddai ei ddiddymu'n arwain at golli cyngor annibynnol; bod yr arbedion ariannol a fyddai'n deillio o ddiddymu'r CCGTh wedi eu camliwio yn y papur ymgynghori; bod amseriad y diddymu arfaethedig yn annoeth; nid yw'r cynnig i ddiddymu'r CCGTh yn rhoi sylw digonol i ddimensiwn DU gyfan y system cyfiawnder gweinyddol.

**Casgliad y Llywodraeth**

3. Penderfyniad y Llywodraeth, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yw y dylai'r CCGTh gael ei ddiddymu.

4. Mae'r CCGTh yn gorff cynghori nad oes angen am ei swyddogaethau bellach neu – yn achos ei swyddogaethau polisi – gellir eu cyflawni'n fwy effeithiol gan y Llywodraeth ei hun. Ni fyddai diddymu'r CCGTh yn cael dim effaith uniongyrchol ar annibyniaeth y farnwriaeth nac ar broses benderfynu'r farnwriaeth; nid yw'r CCGTh yn dribiwnlys nac yn unrhyw fath arall o gorff barnwrol. Nid oes ganddo ychwaith unrhyw swyddogaethau arolygiaeth.

5. Nid oes angen bellach am swyddogaethau'r CCGTh gan fod system tribiwnlys unedig wedi'i sefydlu o fewn GLITEM sydd wedi ymrwymo i ddarparu mynediad prydlon ac effeithiol at gyfiawnder i ddefnyddwyr. Mae'r adran ei hun yn alluog i ddarparu'r oruchwyliaeth angenrheidiol dros y system cyfiawnder gweinyddol a gall ei swyddogion roi'r cyngor amhleidiol, cytbwys, gwrthrychol ac arbenigol i Weinidogion sydd ei angen i ddatblygu polisi effeithiol yn y maes hwn.

Rhoddir pwyntiau allweddol a godwyd yn yr ymgynghoriad, gydag ymateb y Llywodraeth iddynt:

***Bydd diddymu'r CCGTh yn arwain at golli corff sy'n cynrychioli anghenion defnyddwyr***

Mae'r adran yn rhoi sylw i farn defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys rhai mewn grwpiau a warchodir, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae'n ystyried ar hyn o bryd y ffodd orau i ddod â chynrychiolwyr defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill at ei gilydd, gyda'r bwriad o sefydlu grŵp o arbenigwyr cyfiawnder gweinyddol a rhanddeiliaid allweddol i roi syniadau am bolisïau ar waith ac, yn y lle cyntaf, i'n helpu i flaenoriaethu'r rhaglen waith cyfiawnder gweinyddol. Hefyd, mae gan bron bob un o'r awdurdodaethau tribiwnlys grwpiau defnyddwyr sy'n galluogi

defnyddwyr i drafod yr hyn sy'n achos pryder iddynt â'r farnwriaeth a rheolwyr GLITEM. Mae'r grwpiau hyn yn gweithredu ar lefelau cenedlaethol a lleol, ac maent yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr y cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau tribiwnlys, grwpiau proffesiynol (megis y Bar a Chymdeithas y Gyfraith), y farnwriaeth a swyddogion.

***Mae'r CCGTh yn gwneud gwaith craffu annibynnol ar waith tribiwnlysoedd na all Adran y Llywodraeth ei efelychu***

Gwelwyd newid mawr yn y tribiwnlysoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn mae system dribiwnlys unedig wedi'i hen sefydlu o fewn GLITEM sy'n cynorthwyo mwyafrif y tribiwnlysoedd. Hefyd, mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith fel yr amlinellwyd yn Nogfen Fframwaith GLITEM. Yn fwyaf arbennig, mae gwaith yr asiantaeth yn cael ei oruchwylio gan fwrdd, o dan arweiniad cadeirydd annibynnol sy'n gweithio ag aelodau anweithredol ac aelodau'r farnwriaeth i sicrhau atebolrwydd Gweinidogion am berfformiad GLITEM, sy'n golygu nad oes angen bellach am swyddogaeth oruchwylio CCGTh.

Mae'r Adolygiad o Gyrff Cyhoeddus hefyd wedi arwain at gytundeb un ai i drosglwyddo bron pob un o dribiwnlysoedd y Llywodraeth ganolog sydd y tu allan i GLITEM sy'n weddill i GLITEM, neu i ystyried ymhellach y posibilrwydd o'u trosglwyddo. Manteision y dull olaf hwn yw ymdeimlad cynyddol o annibyniaeth ac amhleidioldeb wrth i dribiwnlysoedd gael eu gwahanu oddi wrth y penderfynwyr a pherchnogion y polisi gwreiddiol.

***Mae'r trefniadau ar gyfer Tribiwnlysoedd nad ydynt yn cael eu gweinyddu gan GLITEM yn aneglur ar ôl y cynnig arfaethedig i ddiddymu CCGTh.***

Mae'r adran wedi ymrwymo i ddatblygu trosolwg o'r system gyfan, ac nid y tribiwnlysoedd sy'n cael eu gweinyddu gan GLITEM yn unig. Mae hyn yn cynnwys y cyrff hynny a weinyddir gan awdurdodau lleol, fel panelau apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn a gwahardd o ysgolion. Mae eisoes yn gweithio â'r adrannau a'r asiantaethau perthnasol mewn rhai ardaloedd, ac yn cynnal trafodaethau â hwy, y CCGTh, a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y ffordd orau o wneud hyn yn y dyfodol.

***Nid yw'r cynnig arfaethedig i ddiddymu'r CCGTh yn ystyried dimensiwn DU gyfan y system cyfiawnder gweinyddol na chyflwr presennol y rhaglen i ddiwygio tribiwnlysoedd yng Nghymru a'r Alban***

Mae'r adran wedi ymrwymo i ddatblygu ymagwedd strategol, DU gyfan tuag at y system cyfiawnder gweinyddol. Rydym wedi ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban ynghylch y cynllun diddymu arfaethedig. Bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn penderfynu ar ba bynnag drefniadau y tybir sy'n angenrheidiol. Mae swyddogion yn yr adran eisoes yn cydweithio'n agos â chymheiriaid yn Llywodraethau Cymru a'r Alban i sicrhau trosolwg cymesur, y rhennir arferion gorau ac i sicrhau cysondeb pan mae hynny'n ddymunol. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo'r gweinyddiaethau datganoledig yn eu gwaith i ddiwygio tribiwnlysoedd.

***Nid yw Grŵp Polisi Cyfiawnder y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael digon o adnoddau nac yn gallu darparu cyngor annibynnol i Weinidogion am bolisi cyfiawnder gweinyddol***

Mae tîm cynyddol o weision sifil yn yr adran sy'n cynnig cyngor cytbwys, gwrthrychol, amhleidiol ac arbenigol i Weinidogion ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder gweinyddol, sy'n seiliedig ar sylwadau ac anghenion defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill. Dyma'r hyn mae swyddogion yn ei wneud ym mhob maes polisi cyfiawnder arall ac, fel yn achos meysydd polisi eraill, nid yw ffynhonnell gwybodaeth sy'n annibynnol ar y Llywodraeth yn rhagofyniad. Wrth i flaenoriaethau newydd ddod i'r amlwg yn yr agenda cyfiawnder gweinyddol, bydd y tîm yn manteisio ar gymorth ac adnoddau ychwanegol gan y Grŵp Polisi Cyfiawnder, cartref arbenigedd polisi yn yr adran.

Mae'r adran yn cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod ganddi bersbectif DU gyfan o'r system o'r naill ben i'r llall, o'r broses benderfynu wreiddiol i ddatrys cwynion a gwneud iawn, gan gynnwys ombwdsmyn. Mae'r adran hefyd yn cydweithio'n agos â Swyddfa'r Cabinet, sy'n cadw cyfrifoldeb am bolisi ombwdsmyn.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cydweithio'n glos hefyd ag adrannau eraill y Llywodraeth i sicrhau dull cydlynus a chyson o ddatblygu polisi, ac i wella prosesau penderfynu ac, yn hyn o beth, mae mewn gwell sefyllfa i ddylanwadu ac i weld newid nag ALB. Er enghraifft, mae'r Weinyddiaeth yn gweithio ag asiantaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau i adolygu gweithdrefnau datrys anghydfodau o'r naill ben i'r llall a threfniadau adborth. Bydd y gwaith hwn yn parhau i wella 'ei gael yn iawn y tro cyntaf' a bydd yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd ymhlith cyrff penderfynu i wella safonau.

***Mae'r CCGTh yn gweithredu fel fforwm gwerthfawr i bawb yn y system cyfiawnder gweinyddol i rannu arferion gorau ac i ddatblygu trefniadau i gydweithredu***

Mae'r adran wedi ymrwymo i ddwyn rhanddeiliaid o bob rhan o'r system cyfiawnder gweinyddol at ei gilydd i rannu arferion gorau, i hybu trefniadau i gydweithredu ac i wella safonau. Er ei bod yn cadw at yr ymrwymiad hwn mae'r adran yn ystyried y ffordd orau o wneud hyn yn y dyfodol.

***Mae'r papur ymgynghori'n gorliwio'n sylweddol yr arbedion ariannol a fyddai'n deillio o ddiddymu'r Cyngor***

Cyhoeddwyd yr amcangyfrif o'r arbedion ar ôl dadansoddiad gofalus o'r costau a'r arbedion a fyddai ynghlwm wrth gau'r CCGTh. Amcangyfrif yw'r ffigur hwn, fodd bynnag a gallai newid. Hyd yn oed os na fydd yr arbedion a fydd yn deillio o gau'r CCGTh yr un faint yn union â'r amcangyfrif a gyhoeddwyd, mae'r Llywodraeth yn hyderus y bydd yn golygu arbedion sylweddol i bwrs y wlad.

**Casgliad**

Mae ymrwymiad y Llywodraeth i ddiddymu'r CCGTh drwy orchymyn o dan y Bil Cyrff Cyhoeddus yn parhau. Mae o'r farn ei fod yn gorff cynghori nad oes angen amdano mwyach yn y maes cyfiawnder gweinyddol gan fod trefniadau llywodraethu a goruchwylio cadarn yn awr ar waith o ran tribiwnlysoedd ac mae datblygiad polisi gweinyddol yn un o swyddogaethau priodol y Llywodraeth.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn goruchwylio'r system cyfiawnder gweinyddol yn effeithiol yn y ffordd sy'n diwallu anghenion y defnyddwyr orau. Bydd yn ymdrechu i ddatblygu, cynnal a gwella persbectif DU gyfan y system yn ogystal â gwella ei chysylltiadau â rhanddeiliaid. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod dulliau ar gael i rannu arferion gorau ac i ddatblygu trefniadau i gydweithredu.

**Y camau nesaf**

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn drafft yng Ngwanwyn 2012 a fydd yn diddymu'r CCGTh. Fel yn achos pob Gorchymyn a wneir o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bydd yn dilyn y weithdrefn seneddol gadarnhaol uwch a amlinellir yn adran 11 y Ddeddf a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y ddau Dŷ Seneddol cyn y daw i rym.

Cynhyrchwyd Asesiad Effaith o'r cynnig i ddiddymu'r CCGTh ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn. Mae'r asesiad, a'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig, wedi'u diweddaru'n dilyn yr ymgynghoriad ac fe'u cyhoeddir ochr yn ochr â'r papur ymateb hwn.

## Byrddau'r Llysoedd – Crynodeb o'r ymatebion

1. Cafwyd cyfanswm o 23 o ymatebion ynglŷn â'r cynnig i ddiddymu Byrddau'r Llysoedd. Daeth wyth ymateb gan Gadeiryddion neu aelodau Byrddau'r Llysoedd, cafwyd chwe ymateb gan randdeiliaid busnes, pedwar gan y cyhoedd, tri gan elusennau a chafwyd dau ymateb dienw.

2. Dadansoddwyd yr ymatebion am sylwadau cyffredin ar y cynnig i ddiddymu ac awgrymiadau ar gyfer ffyrdd eraill o ymgysylltu â'r cyhoedd pe bai'r cynnig i ddiddymu Byrddau'r Llysoedd yn mynd ymlaen.

3. O'r 23 ymateb a gafwyd, roedd 13 o'r ymatebwyr yn erbyn eu diddymu, roedd saith o blaid ac nid oedd pedwar yn mynegi barn y naill ffordd na'r llall. Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu eu diddymu'n teimlo y byddai cyfrwng i graffu'n annibynnol ar weinyddiaeth y Llysoedd yn cael ei golli. Ni fyddai cyfrwng i weinyddwyr llysoedd glywed llais y gymuned leol i sicrhau bod materion lleol a chymunedol yn cael sylw digonol ac ni fyddai sicrwydd y byddai swyddogaethau Byrddau'r Llysoedd yn cael eu cyflawni drwy unrhyw ddull arall ar ôl diddymu, yn enwedig o ystyried cyfyngiadau ariannol.

4. Roedd yr ymatebwyr o blaid diddymu'n cydnabod buddiannau ariannol eu diddymu ac roeddent yn credu y gallai GLITEM gryfhau'r cysylltiad â'r gymuned drwy ddulliau eraill fel dyddiau agored, Wythnosau Cyfiawnder ac arolygon boddhad cwsmeriaid a gwell defnydd o gyfarfodydd defnyddwyr y llysoedd.

## Byrddau'r Llysoedd – Ymatebion i gwestiynau penodol

**Cwestiwn 4: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Byrddau'r Llysoedd?**

Roedd 13 o ymatebwyr yn erbyn eu diddymu. Roedd prif thema'r ymatebion yn erbyn diddymu'n canolbwyntio ar ddiffyg corff annibynnol i ddarparu cyngor ac i wneud argymhellion adeiladol a fyddai'n arwain at wella'r gwasanaethau gweinyddol a ddarperir gan y llysoedd ac na fyddai dim cysylltiadau strwythuredig ystyrlon â'r gymuned ar ôl diddymu Byrddau'r Llysoedd.

Roedd saith o ymatebwyr o blaid diddymu, gyda dau ohonynt yn Gadeiryddion Byrddau'r Llys. Roeddent o blaid eu diddymu oherwydd y cyfyngiadau ariannol presennol ac roeddent o'r farn y byddai'r gallu i graffu'n annibynnol ar berfformiad gweinyddol GLITEM yn cael ei reoli drwy archwiliadau mewnol a thrwy ymgynghori â rhanddeiliaid ac y dylai GLITEM allu cryfhau'r cysylltiad â'r gymuned drwy ddulliau eraill megis dyddiau agored, Wythnosau Cyfiawnder ac arolygon boddhad cwsmeriaid a gwell defnydd o gyfarfodydd defnyddwyr y llysoedd.

Nid oedd y tri ymatebwr arall wedi mynegi barn.

---

**Cwestiwn 5: A oes unrhyw rai o swyddogaethau Byrddau'r Llysoedd na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.**

Roedd 10 ymatebwr o'r farn na fyddai corff annibynnol ar gael i weithredu fel goruchwylwyr allanol lleol dros berfformiad gweinyddol GLITEM, yn enwedig o'r gymuned ehangach i sicrhau bod rhai materion lleol yn cael sylw digonol. Mynegwyd pryder hefyd y gallai rhai dulliau eraill a awgrymwyd fel defnydd gwell o gyfarfodydd defnyddwyr llys fod yn gyfyngedig oherwydd y cyfyngiadau ar eu haelodaeth, hynny yw, nid ydynt o reidrwydd wedi'u bwriadu i ddiogelu buddiannau dioddefwyr a thystion. Awgrymodd ymatebwyr y dylai'r bylchau gael eu llenwi fel y gall y gymuned gael rhywfaint o effaith ar benderfyniadau ac y byddant yn gwybod am gynigion i gyflwyno newidiadau mewn meysydd a fydd yn effeithio arnynt.

Roedd tri ymatebwr, er eu bod yn cydnabod rôl bwysig Byrddau'r Llysoedd i wneud gwaith craffu annibynnol ar y cynlluniau busnes a pherfformiad gweinyddol GLITEM a chreu cysylltiad â'r gymuned, yn cydnabod y dylai GLITEM, er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol, allu rheoli'r materion hyn drwy archwiliadau mewnol, drwy ymgynghori â rhanddeiliaid eraill a gwneud gwell defnydd o gyfarfodydd defnyddwyr y llysoedd a thrwy edrych ar y posibilrwydd o ehangu eu haelodaeth i adlewyrchu holl ddefnyddwyr y llysoedd.

Nid oedd y 10 ymatebwr arall wedi mynegi barn.

**Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, sut y gall llysoedd a thribiwnlysoedd lleol atgyfnerthu'r cysylltiad sydd rhyngddynt a'r gymuned leol?**

Roedd 10 ymatebwr am gael sicrwydd am y ffyrdd eraill o gryfhau'r cysylltiad rhwng y llysoedd lleol, tribiwnlysoedd a'r gymuned. Roeddent yn awgrymu mynediad agored i gyfarfodydd defnyddwyr llys, ehangu ei aelodaeth i gynnwys grwpiau defnyddwyr y llysoedd eraill megis dioddefwyr a thystion, gwella mynediad at a chyhoeddi adroddiadau a gwybodaeth. Hoffent hefyd weld y defnydd o ddyddiau agored, Wythnosau Cyfiawnder a'r defnydd o arolygon boddhad cwsmeriaid yn parhau ac na ddylid cwtogi arnynt mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol.

Awgrymodd dau ymatebwr y gellid defnyddio Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i gryfhau'r cysylltiad rhwng y llysoedd a'r gymuned. Hoffai tri ymatebwr weld Byrddau'r Llysoedd yn cael eu cadw i gyflawni'r swyddogaeth honno neu ailddiffinio'u rolau o fewn y GLITEM newydd.

Awgrymodd tri ymatebwr y gellid ymgynghori mwy â'r gymuned ond ni roddwyd manylion pellach. Awgrymodd un ymatebwr y gellid adolygu trefniadau cysylltu rhwng GLITEM a'r Farnwriaeth megis adolygu cylch gwaith y Grŵp Materion Barnwrol a'r Fforymau Barnwrol Ardal gan nad oes modd bellach codi'r math o faterion a godir fel arfer gan y Farnwriaeth drwy gyfrwng Byrddau'r Llysoedd ar ôl eu diddymu.

Nid oedd y pedwar ymatebwr arall wedi datgan barn.

---

**Cwestiwn 7: A gaiff y cynigion unrhyw effaith uniongyrchol o bwys arnoch chi (os felly, esboniwch yr effaith)?**

Dywedodd pum ymatebwr mai'r effaith uniongyrchol arnynt hwy fyddai un ai colli statws aelodaeth fel aelod o Fwrdd y Llysoedd neu golli'r profiad a'r wybodaeth yn y maes hwn a gânt drwy gyfrwng Byrddau'r Llysoedd.

Dywedodd wyth ymatebwr na fyddai diddymu Byrddau'r Llysoedd yn cael unrhyw effaith uniongyrchol o bwys arnynt. Roedd un ymatebwr yn teimlo y byddai diddymu Byrddau'r Llysoedd yn cael effaith anuniongyrchol ar ddefnyddwyr y llysoedd.

Nid oedd y naw ymatebwr arall wedi datgan barn.

## Byrddau'r Llysoedd - Casgliad a'r camau nesaf

1. Mae'r adran yn ddiolchgar iawn i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn. Daeth cyfran uchel o'r ymatebion yn erbyn diddymu oddi wrth aelodau Byrddau'r Llysoedd. Roedd eu dadleuon yn canolbwyntio ar golli corff annibynnol i ddarparu goruchwyliaeth allanol leol ar berfformiad gweinyddol GLITEM, yn enwedig o'r gymuned ehangach, gan olygu na fyddai'r llais lleol yn cael ei glywed ac na fyddai materion cymunedol pwysig yn cael sylw. Roedd y rhai a oedd o blaid diddymu (gan gynnwys dau ymatebwr o Fyrddau'r Llysoedd) yn cydnabod rhesymau'r Llywodraeth dros eu diddymu ond gan deimlo y dylai GLITEM reoli'r bylchau a oedd ar ôl yn dilyn eu diddymu drwy archwiliadau mewnol, ymgynghori â rhanddeiliaid eraill, ehangu'r aelodaeth a defnyddio cyfarfodydd defnyddwyr y llysoedd ac arolygon boddhad cwsmeriaid, dyddiau agored ac Wythnosau Cyfiawnder.

2. Mae'r adran wedi nodi'r sylwadau a wnaethpwyd o blaid ac yn erbyn diddymu. Mae mwyafrif bychan yn erbyn diddymu (13 allan o 23) a daeth cyfran uchel o'r ymatebion hyn oddi wrth aelodau Byrddau'r Llysoedd. Mae'r rhai oedd o blaid (saith ymatebwr gan gynnwys dau aelod o Fyrddau'r Llysoedd) wedi cydnabod y rheswm dros ddiddymu Byrddau'r Llysoedd gan awgrymu bod y dulliau amgen a gynigiwyd gan y Llywodraeth i lenwi'r bylchau swyddogaethol sydd ar ôl yn dilyn eu diddymu yn ddigonol.

### Casgliad

3. Mae'r adran yn parhau'n argyhoeddedig mai diddymu yw'r ffordd orau ymlaen, yn wyneb cyfyngiadau ariannol. Mae hyn yn gydnaws â nod GLITEM i ddiogelu gwasanaethau a darpariaethau rheng flaen drwy gael gwared ar haenau rheoli, biwrocratiaeth a chostau diangen.

4. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod llais y gymuned yn bwysig a bydd yn sicrhau ei fod yn cael ei glywed drwy ddulliau eraill. Bydd rhanbarthau GLITEM yn cael eu hannog i edrych ar opsiynau lleol eraill sy'n addas ar eu cyfer, megis ailstrwythuro grwpiau defnyddwyr y llysoedd ac ehangu eu haelodaeth i ddiogelu cyfraniad y gymuned ehangach at weinyddiaeth y llysoedd. Mae'r syniad hwn yn cael ei ddatblygu eisoes yn ardal un bwrdd llys a bydd unrhyw fodelau ymarferol a ddatblygir yn cael eu rhannu ymhlith y rhanbarthau eraill fel rhan o strategaeth rhannu arferion da GLITEM.

### Y camau nesaf

5. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn drafft yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd sydd â'r nod o ddiddymu Byrddau'r Llysoedd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Fel yn achos pob Gorchymyn a wneir o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bydd yn dilyn y weithdrefn seneddol gadarnhaol uwch a amlinellir yn adran 11 y Ddeddf a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y ddau Dŷ Seneddol cyn y daw i rym.

6. Ni thybiwyd fod angen cynnal Asesiad Effaith ar gyfer diddymu Byrddau'r Llysoedd cyn ymgynghori gan nad yw'r cynnig yn effeithio ar fusnes, cymdeithas sifil na materion rheoleiddiol. Nid oes effaith ar staff ac ni fydd y costau/buddiannau i'r sector cyhoeddus yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn.

7. Ar ôl ystyried yr ymatebion, ni fu newid ym marn y Llywodraeth ar ôl yr ymgynghoriad. Y prif effaith uniongyrchol a nodwyd yn yr ymatebion yw y bydd aelodau Byrddau'r Llysoedd yn colli statws aelodaeth o ganlyniad i'r diddymu. Nid oes gan aelodau Byrddau'r Llysoedd statws cyflogeion; maent yn benodiadau cyhoeddus statudol.

8. Nid oes dim tystiolaeth yn yr ymatebion i gefnogi cynnal Asesiad Effaith nac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn. Fodd bynnag, mae'r ymarferiad sgrinio cychwynnol yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a ddarparwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad wedi'i ddiweddaru ac fe'i cyhoeddir ochr yn ochr â'r papur hwn.

## Pwyllgor Rheolau Llys y Goron - Crynodeb o'r ymatebion

1. Cafwyd cyfanswm o naw ymateb ynglŷn â'r cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron. Roedd y rhain yn cynnwys chwech ymateb gan unigolion, un gan gorff cynrychioliadol, un gan elusen ac ymateb ar y cyd gan awdurdod heddlu a heddlu.

2. Dadansoddwyd yr ymatebion am unrhyw ymagweddau newydd tuag at y cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron ac unrhyw dystiolaeth newydd o'r effaith a gâi hynny.

3. Yn gryno, bychan iawn oedd yr ymateb ac ni chafwyd dim tystiolaeth newydd sy'n effeithio ar y bwriad i ddiddymu'r Pwyllgor. Nid oedd sefydliadau proffesiynol yn gwrthwynebu ei ddiddymu, gan eu bod o'r farn y gellir ymgymryd â'i swyddogaethau'n effeithiol mewn mannau eraill.

## Pwyllgor Rheolau Llys y Goron - Ymatebion i gwestiynau penodol

**Cwestiwn 8: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron?**

Atebwyd y cwestiwn hwn gan wyth o ymatebwyr. Roedd pedwar ohonynt un ai'n cytuno neu nid oeddent yn gwrthwynebu diddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron. Roedd un ymateb yn niwtral ac roedd dau'n gwrthwynebu. Roedd un ymatebwr yn credu'n anghywir bod hwn yn bwyllgor a sefydlwyd o dan Ddeddf Barnweiniaeth (Gogledd Iwerddon) 1978.

Nid oedd y sylwadau a wnaethpwyd yn datgelu unrhyw bryderon newydd. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr:

*Gan fod rheolau sy'n ymwneud ag achosion troseddol wedi'u trosglwyddo eisoes i Bwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol a bod modd trosglwyddo'r rheolau gweddilliol ar gyfer materion sifil yn Llys y Goron i Bwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Sifil a Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu, nid ydym yn gwrthwynebu'r cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron.*

---

**Cwestiwn 9: A ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron a throsglwyddo'i swyddogaethau i'r Arglwydd Brif Ustus ac i'r pwyllgorau rheolau eraill yn sicrhau bod modd bwrw ymlaen â chylch gwaith presennol Pwyllgor Rheolau Llys y Goron? Os nad ydych, esboniwch eich rhesymau.**

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 18 o ymatebwyr. Roedd pum ymatebwr yn cytuno y byddai'r cynnig yn sicrhau y gellid trosglwyddo cylch gwaith presennol Pwyllgor Rheolau Llys y Goron i rywle arall, ac roedd 3 ymatebwr yn anghytuno. Nid oedd y rhai oedd yn gwrthwynebu wedi rhoi rhesymau manwl pam na ellid trosglwyddo'r cylch gwaith yn ôl y cynnig.

## Pwyllgor Rheolau Llys y Goron - Casgliad a'r camau nesaf

1. Nid oedd yr ymatebion a gafwyd yn ymwneud â Phwyllgor Rheolau Llys y Goron yn datgelu dim nodweddion newydd nac unrhyw effeithiau nad oedd wedi'u rhagweld. Ni chanfuwyd dim effaith negyddol.

2. Roedd lleiafrif yr ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron, er mai ychydig o resymau a roddwyd dros eu gwrthwynebiad, ac nid oedd thema gyffredin yn deillio ohonynt. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo na fyddai trosglwyddo swyddogaeth gwneud rheolau Pwyllgor Rheolau Llys y Goron i'r Arglwydd Brif Ustus yn sicrhau y gellid bwrw ymlaen â chylch gwaith y Pwyllgor. Y prif bryder a fynegwyd yn hyn o beth oedd y byddai ei ddiddymu'n arwain at golli pobl ag arbenigedd priodol y gallai'r Arglwydd Brif Ustus ymgynghori â hwy cyn gwneud rheolau.

3. Yn ôl cynigion y Llywodraeth, cyn gwneud rheolau byddai'r Arglwydd Brif Ustus yn gallu ymgynghori â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol, Pwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Sifil neu Bwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu (ac unrhyw unigolion neu gyrff eraill) y credai sy'n briodol. Mae gan bob un o'r pwyllgorau hyn yr arbenigedd i wneud rheolau ac mae Pwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol eisoes yn gwneud rheolau ar gyfer achosion troseddol yn Llys y Goron. Byddai arbenigedd, ac yn wir amrediad ehangach o arbenigedd, ar gael i'r Arglwydd Brif Ustus.

### Casgliad

4. Ar ôl ystyried yr holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ac ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r dadleuon a roddwyd gerbron gan leiafrif yr ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig, mae'r Llywodraeth yn cadarnhau ei bwriad i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron. Mae'r Llywodraeth o'r farn nad oes gan y corff cynghori statudol hwn gylch gwaith digon eang bellach i gyfiawnhau ei gadw ac y gallai'r Arglwydd Brif Ustus gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol yn yr un modd ag sy'n digwydd o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 ar gyfer rheolau eraill a ddiwygir yn anfynych.

5. Nodwyd y pryderon a fynegwyd gan rai ymatebwyr ynghylch trosglwyddo swyddogaethau'r Pwyllgor. Er y byddai'r Arglwydd Brif Ustus yn gallu ymgynghori â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol, Pwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Sifil neu Bwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu, nid oes bwriad i'w gyfyngu o ran y sawl y gall ymgynghori â hwy cyn gwneud Rheolau Llys y Goron ac, fel yn achos dosbarthiadau o reolau eraill, gwneir darpariaethau i'w alluogi i ymgynghori fel fydd yn briodol iddo.

6. Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn rhoi pŵer i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron drwy Orchymyn. Bydd y Gorchymyn yn datgan yn eglur bod y ddeddfwriaeth wedi'i chyfyngu i Gymru a Lloegr ac nad oes ganddi awdurdodaeth yng Ngogledd Iwerddon.

**Y camau nesaf**

7. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn drafft yng Ngwanwyn 2012 a fydd yn diddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron. Fel yn achos pob Gorchymyn a wneir o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bydd yn dilyn y weithdrefn seneddol gadarnhaol uwch a amlinellir yn adran 11 y Ddeddf a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y ddau Dŷ Seneddol cyn y daw i rym.

8. Nid oedd angen asesiad effaith ar adeg yr ymgynghoriad gan nad yw'r cynnig i ddiddymu'r Pwyllgor yn effeithio ar fusnes, cymdeithas sifil na materion rheoleiddiol. Nid oes effaith ar staff ac ni fydd costau/buddiannau i'r sector cyhoeddus yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn. Nid oes dim tystiolaeth yn yr ymatebion i gefnogi cynnal Asesiad Effaith nac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn. Fodd bynnag, mae ymarferiad sgrinio cychwynnol yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a ddarparwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad wedi'i ddiweddaru ac fe'i cyhoeddir ochr yn ochr â'r papur ymateb hwn.

## Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi - Crynodeb o'r ymatebion

1. Cafwyd 18 o ymatebion ynglŷn â'r cynnig i ddiddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (AGLIEM). O'r rhain, dywedodd saith ymatebwr eu bod yn gwrthwynebu'r cynnig i ddiddymu AGLIEM, mynegodd dri ohonynt bryderon yn ymwneud ag agweddau ar y cynnig i ddiddymu, dywedodd chwech eu bod yn cefnogi'r cynnig i ddiddymu ac nid oedd y ddau arall wedi mynegi barn y naill ffordd na'r llall.

2. Prif thema a ddaeth i'r amlwg yn ymatebion y rhai nad oedd yn cefnogi'r cynnig oedd y byddai diddymu AGLIEM yn gadael un o gyrff allweddol y Llywodraeth heb drefniadau craffu annibynnol ac y byddai hynny'n arwain at golli arbenigedd. Mynegwyd amheuaeth hefyd a oedd gan GLITEM brosesau priodol ar waith i herio'i berfformiad ei hun. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch swyddogaethau penodol yr Arolygiaeth gan gynnwys ei rôl i gyd-arolygu'r broses cyfiawnder troseddol, i arolygu dalfeydd yn y llysoedd ac arolygiadau arfaethedig o wasanaeth y crwner.

3. Y farn gyffredinol ymhlith y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig i ddiddymu oedd nad oedd angen am arolygiadau annibynnol o'r llysoedd yn yr hinsawdd sydd ohoni ac y gallai ei swyddogaethau gael eu cyflawni mewn mannau eraill.

## Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi - Ymatebion i gwestiynau penodol

### Cwestiwn 10: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu AGLIEM?

Roedd nifer o’r ymatebwyr a fynegodd bryderon ynghylch diddymu AGLIEM yn credu y byddai colli’r Arolygiaeth yn arwain at golli arbenigedd a diffyg goruchwyliaeth a chraffu annibynnol ar brosesau’r llysoedd. Ychwanegwyd hefyd fod hyn wedi digwydd ar adeg pan oedd newidiadau yn GLITEM a’r hinsawdd ariannol presennol yn golygu bod mwy o alw am arolygiadau annibynnol. Roedd nifer o ymatebwyr o’r farn na ddylai GLITEM ddibynnu ar ei brosesau mewnol ei hun i fonitro ei berfformiad, ac nad oedd rôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ddigon eang i fabwysiadu rôl AGLIEM. Roedd un ymatebwr o’r farn bod gwaith GLITEM yn cyflawni mwy na swyddogaethau gweinyddol a bod hyn felly’n golygu bod mwy o angen am graffu annibynnol.

Mynegodd un ymatebwr bryder ynghylch y diffyg cydnabyddiaeth a roddwyd i effaith diddymu AGLIEM ar fusnesau bach, gan ei fod yn gyfrifol am arolygu materion yn y llysoedd sifil, megis dulliau amgen o ddatrys anghydfodau a hawliadau ariannol. Roedd yr un ymatebwr yn teimlo nad oedd digon o sylw i bwyslais AGLIEM ar gydraddoldebau, gan ei fod yn ymgysylltu’n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau a chyrff cynrychioliadol.

Nododd rhai ymatebwyr hefyd fod AGLIEM wedi rhoi’r gorau i weithredu eisoes, a mynegwyd pryder fod hynny wedi digwydd cyn unrhyw ymgynghoriad ynghylch ei ddiddymu.

Roedd y rhai a oedd yn cefnogi diddymu yn credu at ei gilydd nad oedd angen am arolygiaeth annibynnol yn yr hinsawdd sydd ohoni a gallai ei swyddogaethau gael eu cyflawni mewn mannau eraill. Dywedodd un ymatebwr fod AGLIEM wedi bod yn wan o ran herio arferion gwael. Roedd ymatebwr arall yn credu y dylai ei swyddogaethau gael eu trosglwyddo i’r Comisiwn Archwilio.

---

### Cwestiwn 11: A oes unrhyw rai o swyddogaethau AGLIEM na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at rôl AGLIEM yng nghyd-arolygu’r broses cyfiawnder troseddol, a bod colli AGLIEM wedi achosi bwlch o ran craffu annibynnol ar brosesau o’r naill ben i’r llall. Dywedodd un ymatebwr - arolygydd cyfiawnder troseddol - nad oedd dim mecanwaith yn awr i orfodi GLITEM i weithredu ar ganfyddiadau cyd-arolygon.

Yn ei ymateb, cyfeiriodd INQUEST at rôl arfaethedig AGLIEM i fonitro perfformiad llysoedd crwner, a mynegodd siom nad oes sefydliad arall wedi ymgymryd â'r rôl hon. Cyfeiriwyd hefyd at rôl AGLIEM i arolygu dalfeydd mewn llysoedd, o dan Brotocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Poenydio, er bod y trefniadau newydd ar gyfer y cyfrifoldeb hwn (fe'i cynhelir gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi) wedi'u croesawu.

## Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi - Casgliad a'r camau nesaf

1. Mae'r adran yn croesawu'r ymatebion i'r cwestiynau ar ddiddymu AGLIEM. Ar ôl pwyso a mesur ymatebion yr ymgynghoriad yn ofalus, mae'n dal i gredu nad oes angen corff i gynnal arolygiadau annibynnol o GLITEM ac mae'n fodlon bod mecanweithiau priodol ar waith i ddarparu trefniadau craffu angenrheidiol ar weinyddiaeth llysoedd.

2. Nodir isod y prif bwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad, gydag amlinelliad o ymatebion y Llywodraeth.

***Mae diddymu AGLIEM yn golygu diffyg goruchwyliaeth annibynnol ar waith GLITEM***

Nid yw'r Llywodraeth yn credu bod angen arolygiaeth annibynnol i fonitro prosesau gweinyddol GLITEM. Mae systemau rheoli a phrosesau archwilio mwy soffistigedig a chadarn ar waith yn GLITEM erbyn hyn sy'n fodd i gyflawni swyddogaethau AGLIEM drwy ddulliau gwahanol a mwy cost effeithiol.

***Nid yw'n ddigon i ddweud y bydd GLITEM a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn craffu'n briodol ar brosesau GLITEM***

Mae'r Llywodraeth yn bendant o'r farn bod mecanweithiau priodol ar waith i wneud y gwaith craffu angenrheidiol. Amlinellwyd yn eglur mewn deddfwriaeth mai rôl AGLIEM oedd arolygu prosesau <u>gweinyddol</u> yn y Llysoedd ac nad oedd yn credu ei bod yn angenrheidiol nac yn gost effeithiol i gorff annibynnol gyflawni'r rôl hon. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cynnal astudiaethau manwl iawn o fusnes y llysoedd (e.e. astudiaeth 2008 o Lys y Goron).

***Mae colli AGLIEM yn golygu colli arbenigedd***

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod AGLIEM wedi datblygu arbenigedd a'i bod wedi gwneud cyfraniad buddiol at wella gwasanaethau a ddarperir i ddefnyddwyr y llysoedd. Fodd bynnag, nid yw'n credu y bydd hyn yn golygu na chreffir yr un mor ofalus ar brosesau gweinyddol. Mae'r penderfyniad i ddiddymu AGLIEM yn golygu y bydd yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu gwario'n fwy penodol ar fusnes y llysoedd. Os bydd angen ac os gwneir cais, mae GLITEM wedi cytuno y bydd gweinyddwyr llys profiadol ar gael ar secondiad i gynorthwyo gyda'r arolygiadau.

***Ni fydd cyd-arolygu prosesau cyfiawnder troseddol yn effeithiol***

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn caniatáu i orchymyn gael eu gwneud sy'n trosglwyddo swyddogaethau i Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol eraill ar yr un pryd ag y diddymir AGLIEM, fel y gallant arolygu agweddau ar weinyddiaeth llysoedd ar gyfer cyd-arolygiadau yn y dyfodol. Mae GLITEM mewn cysylltiad agos â'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol i ymgymryd â'r gwaith hwn. Bydd GLITEM yn parhau'n atebol i Weinidogion, ac yn y pen draw, i'r Senedd, i'r graddau y maent yn ymateb i argymhellion arolygiadau.

***Nid oes corff mewn sefyllfa i ymgymryd â swyddogaeth arfaethedig AGLIEM i fonitro perfformiad yn y llys y crwneriaid***

Roedd Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 yn cynnwys darpariaeth i AGLIEM arolygu llys y crwneriaid. Fodd bynnag, yn fuan ar ôl pasio'r ddeddfwriaeth, cyhoeddwyd y byddai AGLIEM yn cael ei ddiddymu ac felly ni fwriwyd ymlaen â hyn. Fodd bynnag, mae diwygiadau arfaethedig y Llywodraeth i system y crwneriaid yn golygu y bydd mwy o oruchwyliaeth o'r system, drwy swyddfa'r Prif Grwner a hefyd Siarter Genedlaethol, a fydd yn pennu safonau sylfaenol y gall y sawl a fydd yn dod i gysylltiad â'r system eu disgwyl.

***Gallai'r Comisiwn Archwilio gymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau AGLIEM***

Mae disgwyl y bydd y Comisiwn Archwilio'n cael ei ddiddymu o dan gynlluniau a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, felly ni fyddai'n briodol iddo ymgymryd â mwy o swyddogaethau. Mae'r Llywodraeth yn fodlon bod mecanweithiau priodol ar waith i wrthweithio'r angen i arolygu GLITEM yn annibynnol.

***Ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i'r effaith ar ddefnyddwyr y llysoedd a chyrff cynrychioliadol.***

Mae'r Llywodraeth yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaethpwyd gan GLIEM wrth ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaethau, gan gynnwys y rhai o leiafrifoedd a'r grwpiau sy'n eu cynrychioli. Fel y dywedwyd yn yr Asesiad Effaith, oherwydd natur swyddogaethau AGLIEM, mae'n anodd iawn asesu unrhyw effaith uniongyrchol ar ddefnyddwyr y llysoedd mewn modd dibynadwy ac mae'r effaith yn debygol o fod yn rhy wasgarog i allu ei fesur. Fodd bynnag, bwriedir i GLITEM barhau i ymgysylltu â defnyddwyr y llysoedd a grwpiau rhanddeiliaid.

***Roedd AGLIEM wedi'i ddirwyn i ben cyn cynnal ymgynghoriad llawn ar y materion***

Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chytundeb llawn uwch dîm rheoli AGLIEM, y byddai'n well cau AGLIEM yn weinyddol cyn ei gau'n ddeddfwriaethol. Gan fod niferoedd y staff yn gostwng ac ansicrwydd blaenorol ynghylch dyddiad cau, daeth yn fwyfwy anodd i AGLIEM gynnig unrhyw waith newydd ac ystyrlon i'r staff. Tybiwyd mai cytuno ar ddyddiad cau pendant oedd yr ateb gorau i staff, a fyddai'n eu galluogi i gael eu rhoi ar y rhestr ailgyflogi a thrwy roi blaenoriaeth iddynt i lenwi swyddi gwag, yn ogystal â galluogi AGLIEM i roi cynllun cau ffurfiol ar waith.

**Y camau nesaf**

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn drafft yng Ngwanwyn 2012 a fydd yn diddymu AGLIEM. Fel yn achos pob Gorchymyn a wneir o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bydd yn dilyn y weithdrefn seneddol gadarnhaol uwch a amlinellir yn adran 11 y Ddeddf a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y ddau Dŷ Seneddol cyn y daw i rym.

Cynhyrchwyd Asesiad Effaith o'r cynigion i ddiddymu AGLIEM ochr yn ochr â'r papur ymgynghori. Mae'r asesiad a'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig wedi eu diweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad ac fe'u cyhoeddir ochr yn ochr â'r papur ymateb hwn.

## Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon - Crynodeb o'r ymatebion

1. Cafwyd cyfanswm o 10 ymateb ynglŷn â'r cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon (MCRC). Cefnogwyd y cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon gan bump o'r rhai a ymatebodd. Roedd dau ymatebwr yn gwrthwynebu'r cynnig ac nid oedd y gweddill yn cefnogi nac yn gwrthwynebu ond yn datgan rhai pryderon ynghylch trosglwyddo swyddogaethau Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon. Roedd y rhai hynny a oedd o blaid y cynnig yn dadlau bod cylch gwaith llai'r Pwyllgor yn cyfiawnhau ei ddiddymu ac y byddai'n osgoi dyblygu gwaith, ond nid oedd thema gyffredin ymhlith ymatebion y rhai hynny oedd yn gwrthwynebu'r cynnig.

2. Y prif bryder a fynegwyd gan y rhai hynny a gredai na fyddai'r cynigion yn sicrhau bod cylch gwaith Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon yn cael ei fwrw ymlaen oedd diffyg arbenigedd ynadon a fyddai ar gael i'r Arglwydd Brif Ustus cyn iddo wneud rheolau. Roedd un ymatebwr yn credu mai un canlyniad o golli arbenigedd fyddai lleihad mewn hyder yn y llysoedd. Fodd bynnag, cafodd hyn ei gloriannu gan Gymdeithas yr Ynadon a ddywedodd fod pwyllgorau rheolau eraill sy'n bodoli mewn sefyllfa gref i gynghori'r Arglwydd Brif Ustus a bod ganddynt yr arbenigedd angenrheidiol i ymgynghori ar yr amrediad cyfyngedig o reolau a wneir o dan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980. Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr o'r farn bod yr achosion sifil nad ydynt yn rhai teulu sy'n weddill yn y llysoedd ynadon yn gyfyngedig iawn ac mai'n anfynych yn unig y gwneir rheolau. Nid oedd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr wrthwynebiad felly i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon.

## Pwyllgor Rheolau’r Llysoedd Ynadon - Ymatebion i gwestiynau penodol

**Cwestiwn 12: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon?**

Roedd pum ymatebwr yn cefnogi neu nad oedd yn gwrthwynebu’r cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau’r Llysoedd Ynadon. Roedd dau ymatebwr yn gwrthwynebu’r cynnig ac nid oedd tri arall yn cefnogi nac yn gwrthwynebu’r cynnig, gyda nifer ohonynt wedi mynegi pryderon ynghylch y trefniadau ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau Pwyllgor Rheolau’r Llysoedd Ynadon.

Ymhlith y rhesymau a roddwyd gan y rhai a gefnogai’r cynnig oedd bod llawer o swyddogaethau’r Pwyllgor eisoes wedi’u trosglwyddo i Bwyllgor Rheolau’r Weithdrefn Droseddol a Phwyllgor Rheolau’r Weithdrefn Teulu a oedd yn golygu bod cylch gwaith Pwyllgor Rheolau’r Llysoedd Ynadon yn gyfyng iawn. Hefyd, roedd un ymatebwr o’r farn ei bod yn ymddangos yn synhwyrol i ddiddymu pwyllgor sy’n dyblygu gwaith pwyllgorau eraill.

Roedd sylwadau’r rhai a oedd yn gwrthwynebu’r cynnig yn cynnwys y gred nad oedd yn ddim mwy nag ymarferiad i arbed arian.

Roedd yr ymateb ar ran Pwyllgor Cyfreithiol Cyngor y Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon) yn datgan y farn y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol cyn y gellid diddymu Pwyllgor Rheolau’r Llysoedd Ynadon o ran rheolau a wneir ar gyfer gorfodi ac amrywio gorchmynion mewn achosion teulu.

---

**Cwestiwn 13: A ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon a throsglwyddo'i swyddogaethau ymgynghorol i bwyllgorau rheolau eraill yn sicrhau bod modd bwrw ymlaen â chylch gwaith presennol Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon? Os nad ydych, esboniwch eich rhesymau.**

Cafwyd wyth ymateb i’r cwestiwn hwn. Roedd pum ymatebwr o’r farn y bydd y cynigion yn sicrhau y gellir bwrw ymlaen â chylch gwaith presennol Pwyllgor Rheolau’r Llysoedd Ynadon. Roedd tri ymatebwr o’r farn na fydd y cynigion yn sicrhau y gellir bwrw ymlaen â chylch gwaith presennol Pwyllgor Rheolau’r Llysoedd Ynadon.

Gwahoddwyd y rhai nad oedd yn cytuno â’r cynnig i esbonio eu rhesymau. Mynegwyd pryder na fyddai swyddogaethau Pwyllgor Rheolau’r Llysoedd Ynadon yn cael eu cyflawni’n effeithiol drwy unrhyw ddull arall, yn enwedig yn wyneb y cyfyngiadau ariannol. Byddai arbenigedd yn cael ei golli a byddai hyder yn y llysoedd yn dioddef.

Er eu bod yn cytuno bod rôl Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon yn llai nag yn y gorffennol, nid oedd Pwyllgor Cyfreithiol Cyngor y Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon) yn cytuno y gallai'r Arglwydd Brif Ustus ymdrin â'r rôl sydd ganddo'n weddill, mewn ymgynghoriad â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol a Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu yn unig ac roedd yn mynnu y dylid ymgynghori hefyd â Chymdeithas Clercod yr Ynadon a'r Prif Ynad hefyd. Roedd ymgynghori â'r rhai hynny sydd â phrofiad arbenigol ac arbenigedd sy'n gysylltiedig â llysoedd ynadon yn hanfodol.

## Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon - Casgliad a'r camau nesaf

1. Lleiafrif yr ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu'r cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon, ac ni ddaeth thema gyffredin i'r amlwg yn y rhesymau a roddwyd am eu gwrthwynebiad. Roedd lleiafrif o ymatebwyr hefyd yn credu na fyddai'r cynigion i drosglwyddo swyddogaethau Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon i bwyllgorau rheolau eraill yn sicrhau y gellid bwrw ymlaen â chylch gwaith presennol Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon. Y pryder mwyaf o ran hyn o beth oedd y byddai ei ddiddymu'n arwain at golli arbenigedd y llysoedd ynadon arbenigol hynny y gallai'r Arglwydd Brif Ustus ymgynghori â hwy cyn gwneud rheolau.

2. Yn ôl y cynigion, byddai'r Arglwydd Brif Ustus yn gallu ymgynghori â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol, Pwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Sifil neu Bwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu cyn gwneud rheolau, yn ôl ei grebwyll. Mae gan bob un o'r pwyllgorau hyn arbenigedd mewn gwneud rheolau ac mae aelodaeth Pwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol a Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu ill dau yn cynnwys barnwr rhanbarth (llysoedd ynadon), ynad a chlerc ynadon. Mae'r pwyllgorau hyn eisoes yn gwneud rheolau ar gyfer achosion troseddol yn y llysoedd ynadon ac ar gyfer achosion teulu yn y llysoedd ynadon yn y drefn honno.

3. Cafwyd awgrym defnyddiol gan Gyngor y Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon) y dylai fod yn ofynnol i'r Arglwydd Brif Ustus ymgynghori â Chymdeithas y Clercod Ynadon a'r Prif Ynad hefyd cyn gwneud rheolau. Y bwriad yw peidio â chyfyngu ar bwy y gall yr Arglwydd Brif Ustus ymgynghori â hwy ac, er y credir fod y Pwyllgorau mewn sefyllfa dda i gynghori ac i ymgynghori â hwy, bydd yr Arglwydd Brif Ustus yn dewis ymgynghori fel y bydd yn briodol yn ei dyb ef, yn ddibynnol ar natur y rheolau sy'n cael eu gwneud.

4. Awgrymodd un ymatebwr nad oedd y cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon yn ddim mwy nag ymarferiad i dorri costau. Mewn gwirionedd, er y byddai ei ddiddymu'n cael gwared ar gorff cyhoeddus na ellid cyfiawnhau ei gadw oherwydd y gostyngiad mawr yn ei gylch gwaith, ni fyddai'n arwain at arbedion gweinyddol.

5. Mewn ymateb i sylw Pwyllgor Cyfreithiol Cyngor y Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon) ynghylch y posibilrwydd y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol cyn y gellid diddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon, fel rheolau

sy'n gysylltiedig â gorfodi ac amrywio gorchmynion mewn achosion teulu a wneir gan Bwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon (nid gan Bwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu), mae'n wir i ddweud nad yw achosion o'r fath yn dod o fewn y diffiniad o 'achosion teulu' i ddiben pwerau gwneud rheolau Pwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu. Fodd bynnag, fel yn achos rheolau eraill a wneir o dan adran 144 Deddf Llysoedd Ynadon 1980, maent yn cael eu gwneud gan yr Arglwydd Brif Ustus yn dilyn cyngor, neu mewn ymgynghoriad â Phwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon. Byddai unrhyw orchymyn a wneid i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon o dan y Mesur, pe cai ei roi ar waith, yn cynnwys y diwygiadau angenrheidiol i adran 144 Deddf 1980.

**Casgliad**

6. Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r dadleuon a roddwyd gerbron gan leiafrif yr ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig, mae'r Llywodraeth yn cadarnhau ei bwriad i fwrw ymlaen i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon. Mae'r Llywodraeth o'r farn nad oes gan y corff cynghori statudol hwn a sefydlwyd o dan Ddeddf Llysoedd Ynadon1980 gylch gwaith digon eang bellach i gyfiawnhau ei gadw ac y gallai pwyllgorau rheolau presennol eraill gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

7. Nodwyd y pryderon a fynegwyd gan rai ymatebwyr ynghylch trosglwyddo swyddogaethau Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon. Er y byddai'r Arglwydd Brif Ustus yn gallu ymgynghori â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol, Pwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Sifil a Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu, nid oes bwriad i gyfyngu ar y sawl y gall ymgynghori â hwy cyn gwneud rheolau o dan adran 144 Deddf Llysoedd Ynadon 1980 ac, fel yn achos dosbarthiadau eraill o reolau, gwneir darpariaethau iddo i ymgynghori â phwy bynnag mae'n teimlo sy'n briodol.

**Y camau nesaf**

8. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn drafft yng Ngwanwyn 2012 a fydd yn diddymu'r Pwyllgor. Fel yn achos pob Gorchymyn a wneir o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bydd yn dilyn y weithdrefn seneddol gadarnhaol uwch a amlinellir yn adran 11 y Ddeddf a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y ddau Dŷ Seneddol cyn y daw i rym.

9. Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith cyn ymgynghori gan nad yw'r cynnig i ddiddymu'r Pwyllgor yn effeithio ar fusnes, cymdeithas sifil na materion rheoleiddiol. Nid oes effaith ar staff ac ni fydd costau/buddiannau i'r sector cyhoeddus yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn. Nid oedd tystiolaeth yn yr ymatebion i gefnogi cynnal Asesiad Effaith ar ôl yr ymgynghoriad.

10. Ni chafwyd sylwadau'n ymwneud â'r effeithiau ar gydraddoldeb a fyddai'n deillio o ddiddymu. Fodd bynnag, mae ymarferiad sgrinio cychwynnol yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a ddarparwyd ochr yn ochr â'r papur ymgynghori wedi'i ddiweddaru ac fe'i cyhoeddir ochr yn ochr â'r papur hwn.

## Swyddfa'r Prif Grwner - Crynodeb o'r ymatebion

1. Cafwyd cyfanswm o 2,646 o ymatebion a oedd yn cyfeirio at swyddfa'r Prif Grwner. Roedd 2,607 o'r rhain yn ymatebion yr un fath yn union â'i gilydd gan y cyhoedd drwy wefan ymgyrch y Lleng Brydeinig. Roedd yr ymatebwyr yn amrywio o gynrychiolwyr y rhai hynny a oedd wedi defnyddio'r system grwnerol megis sefydliadau pobl mewn profedigaeth a rhai sy'n dod i gysylltiad proffesiynol â chrwneriaid megis y proffesiwn meddygol a'r systemau cyfiawnder troseddol a charchardai.

2. Cyfeiriodd mwyafrif yr ymatebion at yr egwyddor sydd wrth wraidd prif gynnig y Llywodraeth i drosglwyddo swyddogaethau'r Prif Grwner i'r Arglwydd Brif Ustus neu'r Arglwydd Ganghellor ac a oedd angen swyddfa'r Prif Grwner i gyflawni diwygiad ystyrlon. Roedd nifer ohonynt wedi rhoi enghreifftiau o sut y gallai Prif Grwner gyflawni canlyniadau dymunol i ddiwygio. Dadansoddwyd yr ymatebion am sylwadau ar sut y byddai'r egwyddor i drosglwyddo swyddogaethau oddi wrth y Prif Grwner i'r Arglwydd Brif Ustus neu'r Arglwydd Ganghellor yn cyflawni'r prif amcanion ar gyfer diwygio yn ogystal â sut y byddai swyddogaethau penodol a drosglwyddwyd yn cyflawni'r amcanion hynny. Dadansoddwyd yr ymatebion hefyd am sylwadau ar y Bwrdd Gweinidogol arfaethedig a Phwyllgor Sefydliadau Pobl mewn Profedigaeth ategol yn ogystal ag a oedd unrhyw rai o swyddogaethau'r Prif Grwner heb gael sylw digonol yn y cynigion.

3. Roedd bron pob ymatebwr yn ategu'r angen i ddiwygio. Roedd y mwyafrif o'r farn bod y system bresennol yn dameidiog a bod arferion gweithio a safonau amrywiol i'w gweld mewn awdurdodaethau gwahanol grwneriaid. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod hyn yn cael effaith ar bobl mewn profedigaeth ac ar y rhai hynny sy'n dod i gysylltiad â'r system ar lefel broffesiynol, yn ogystal â chael effaith niweidiol bosibl ar y gallu i ddysgu gwersi i atal marwolaethau yn y dyfodol. Roedd bron pob ymatebwr yn teimlo bod cysondeb ar draws y system yn allweddol i wella safonau ac y byddai gwell arweiniad a goruchwyliaeth yn sicrhau cysondeb o'r fath.

4. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr y byddai swyddfa'r Prif Grwner yn sicrhau tryloywder, atebolrwydd ac arweiniad a goruchwyliaeth annibynnol i'r system grwnerol a bod angen un arweinydd i roi arweiniad o'r fath. Roedd llawer yn pryderu nad oedd y cynnig ar gyfer Bwrdd Gweinidogol yn ddigonol i ddarparu'r cydlyniad a'r oruchwyliaeth farnwrol y byddai Prif Grwner wedi'i roi. Roedd llawer o ymatebion yn gwneud cyfeiriad ar gam at ddiddymu'r swydd er nad oedd hyn yn fwriad bellach gan y Llywodraeth.

5. Roedd rhai ymatebwyr, fodd bynnag, yn cydnabod y byddai Siarter Genedlaethol newydd Gwasanaeth y Crwner yn arwain at welliannau yn lefel y gwasanaeth a ddarperir gan grwneriaid, ac yn rhoi rôl fwy blaenllaw i sefydliadau ar gyfer pobl mewn profedigaeth. Roedd rhai, fodd bynnag, yn amau ei effeithiolrwydd ar adeg pan mae cyllid awdurdodau lleol o dan bwysau.

6. Roedd ymatebwyr hefyd yn amau a fyddai cynigion y Llywodraeth yn cyflawni'r arbedion mewn costau a ddymunir. Teimlai rhai bod costau gweithredu Rhan 1 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 fel yr amlinellwyd yn yr asesiad effaith a oedd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth wedi'u gorliwio. Roedd eraill yn teimlo y byddai sefydlu'r Bwrdd Gweinidogol a'r Pwyllgor Sefydliadau Pobl mewn Profedigaeth, ynghyd â'r angen i swyddogaethau a drosglwyddwyd gael eu cynnal gan ddeiliad swydd farnwrol a staff y gwasanaeth sifil, yn golygu y gallai unrhyw arbedion fod yn fychan iawn.

7. Roedd rhai'n teimlo nad oedd gwir gostau a buddiannau gwelliannau i'r system grwnerol yn gwbl hysbys ac na roddwyd ystyriaeth fanwl i fuddiannau ariannol ac anariannol gweithredu swyddfa'r Prif Grwner.

## Swyddfa’r Prif Grwner - Ymatebion i gwestiynau penodol

**Cwestiwn 14: Beth yw eich barn am y cynnig i drosglwyddo swyddogaethau'r Prif Grwner i'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor: mewn egwyddor, ac/neu yng nghyswllt y swyddogaethau penodol y manylir arnynt yn Atodiad A?**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo bod y gwasanaeth crwner presennol yn dameidiog gyda gwahanol ddulliau a safonau’n cael eu defnyddio mewn gwahanol awdurdodaethau. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod safonau cyson yn hanfodol ac mai’r ffordd orau o gyflawni hyn oedd drwy gael un arweinydd annibynnol ac atebol. Roedd llawer yn teimlo na fyddai trosglwyddo swyddogaethau i wahanol gyrff a sefydlu Bwrdd Gweinidogol a Phwyllgor Sefydliadau Pobl mewn Profedigaeth yn arwain at yr un ymagwedd gydlynus tuag at ddiwygio ag y ceid drwy sefydlu swyddfa Prif Grwner.

Roedd Mencap yn teimlo bod yr amrywiaeth eang o safonau o dan y system bresennol wedi arwain at “loteri cod post” gydag oedi yn y system grwner mewn rhai ardaloedd. Roeddent yn teimlo y byddai Prif Grwner wedi arwain at gydlyniant, atebolrwydd ac arweiniad cenedlaethol i ddatrys y diffygion hyn. Yn yr un modd roedd y Cynghrair Cyfiawnder Troseddol yn teimlo mai bwriad Prif Grwner oedd dod â thryloywder ac atebolrwydd i’r gwasanaeth crwnerol drwy ddarparu goruchwyliaeth farnwrol ac arweinyddiaeth genedlaethol.

Roedd y Brethren Christian Fellowship yn teimlo y byddai crwneriaid yn croesawu pwynt cyfeirio canolog i roi cyfeiriad a chanllawiau awdurdodol.

Fodd bynnag, tynnodd rai sylw at y buddiannau a ddoi yn sgil cynigion y Llywodraeth o ran cysondeb mewn safonau, megis y Siarter Gwasanaeth y Crwner, a fyddai ym marn rhai yn amlinellu disgwyliadau pendant ar gyfer y gwasanaethau y dylai crwneriaid eu darparu.

Yn yr un modd, gwelai lawer rinweddau yn y cynnig i sefydlu Bwrdd Gweinidogol a Phwyllgor Sefydliadau Pobl mewn Profedigaeth, gyda llawer yn falch o weld sefydliadau pobl mewn profedigaeth yn cael eu rhan fwy blaenllaw yn y broses ddiwygio.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau uniongyrchol ar addasrwydd y swyddogaethau a fyddai’n cael eu cyflawni gan yr Arglwydd Brif Ustus a’r Arglwydd Ganghellor gan nad oeddent yn teimlo y byddai deiliaid y swyddi hynny’n rhoi sylw digon manwl i faterion crwnerol.

---

**Cwestiwn 15: Beth yw eich barn am y Bwrdd Gweinidogol a gynigir a'r pwyllgor ategol, Pwyllgor Sefydliadau Pobl mewn Profedigaeth?**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn croesawu cynnwys sefydliadau pobl mewn profedigaeth yn y broses o ddiwygio’r system grwnerol. Roedd llawer yn cefnogi’r

cynigion mewn egwyddor, gan ychwanegu bod angen ystyried yr aelodaeth yn ofalus i sicrhau bod gwahanol safbwyntiau'n cael eu cynrychioli'n deg.

Roedd y Grŵp Llywodraeth Leol, er enghraifft, yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor ond awgrymodd y byddai'n rhaid i'r Grŵp Gweinidogol gael cynrychiolaeth ac arbenigedd digonol o blith awdurdodau lleol sy'n rheoli gwasanaethau crwner eu hunain.

Roedd peth pryder na fyddai'r Bwrdd Gweinidogol yn sicrhau'r annibyniaeth angenrheidiol a geir drwy swyddfa'r Prif Grwner.

Roedd rhai'n amau a fyddai gan y Pwyllgor Sefydliadau Pobl mewn Profedigaeth ddigon o adnoddau neu ddigon o arbenigedd i allu ymgymryd â'i swyddogaethau'n effeithiol. Roedd Action Against Medical Accidents yn teimlo na fydd gan bob sefydliad brofiad o weithio ar lefel genedlaethol mewn rolau o'r fath ac y byddai adnoddau llawer o fudiadau gwirfoddol o dan bwysau cynyddol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Eu pryder hwy oedd nad oedd darpariaethau i ddarparu cyllid na hyfforddiant ychwanegol i orfodi safonau cenedlaethol fel yr amlinellir yn y Siarter.

---

**Cwestiwn 16: A oes unrhyw rai o swyddogaethau'r Prif Grwner nad yw'r cynigion uchod yn darparu'n ddigonol ar eu cyfer, yn eich barn chi? Esboniwch eich rhesymau.**

O'r rhai hynny a fynegodd bryder am nad oedd swyddogaethau penodol yn cael eu bwrw ymlaen, roedd llawer yn teimlo y dylai swyddogaeth y Prif Grwner o ran apeliadau (adran 40 Deddf 2009) gael ei chadw. Y prif faes a oedd yn achos pryder yn hyn o beth oedd bod y llwybr presennol ar gyfer apelio sef Adolygiad Barnwrol yn gostus a chymhleth, ac oherwydd hynny roedd llawer o deuluoedd mewn profedigaeth yn penderfynu peidio apelio.

Roedd y Grŵp Llywodraeth Leol yn teimlo y gallai system apelio ratach leihau'r gost bosibl i awdurdodau lleol ac arwain at gynnydd posibl mewn adolygiadau barnwrol.

Roedd INQUEST a Disaster Action yn teimlo bod y gofyniad yn adran 36 Deddf 2009 (adrodd blynyddol) yn elfen hanfodol o rôl y Prif Grwner, gan sicrhau bod materion sy'n codi yng ngwasanaeth y crwner yn cael eu hysbysu'n briodol i'r Senedd drwy'r Arglwydd Brif Ustus ac felly y gweithredir yn briodol arnynt.

Roedd rhai, fel y Lleng Brydeinig a Cruse, yn teimlo bod yr ymrwymiadau i barhau i fonitro a chyhoeddi data ar farwolaethau'r lluoedd arfog ac i ddarparu hyfforddiant ar faterion milwrol o dan adran 37 yn golygu y byddai'r ymrwymiadau hynny'n cael eu llesteirio o dan gynigion y Llywodraeth. Nododd y Lleng Brydeinig, yn fwyaf arbennig fod y gofyniad presennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Grwner sicrhau hyfforddiant , tra mae'r gofyniad hyfforddi o dan adran 37 yn cyfeirio at y ffaith y gellir gwneud rheoliadau hyfforddi.

Roedd llawer, fel y Grŵp Llywodraeth Leol, yn awyddus i sicrhau nad oedd arbenigedd a phrofiad yn cael eu colli yn sgil trosglwyddo swyddogaethau.

## Swyddfa'r Prif Grwner - Casgliad a'r camau nesaf

Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid cadw'r Prif Grwner, er bod peth cefnogaeth hefyd i'r cynnig i drosglwyddo swyddogaethau'r swyddfa, ar yr amod nad oedd y Prif Grwner yn cael ei ddiddymu.

Roedd y rhan fwyaf yn croesawu'r cyfle i roi rôl fwy blaenllaw i sefydliadau pobl mewn profedigaeth drwy'r Pwyllgor Sefydliadau Pobl mewn Profedigaeth ac roeddent o'r farn y gallai'r Bwrdd Gweinidogol fod yn fforwm defnyddiol i fwrw ymlaen â gwelliannau i'r broses grwnerol.

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr ymatebion yn ymwneud â swyddfa'r Prif Grwner o dan y Bil Cyrff Cyhoeddus ochr yn ochr ag ymgynghoriad ar y Siarter newydd y Gwasanaeth y Crwner. Mae ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y Siarter i'w weld ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn http://www.justice.gov.uk/consultations/index.htm

### Casgliad y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus y materion a godwyd gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, ynghyd â phryderon pellach a nodwyd gan gyrff megis INQUEST a'r Lleng Brydeinig yn ystod taith y Bil Cyrff Cyhoeddus drwy'r Senedd. Mynegwyd yn groyw bod angen un person i fod yn gyfrifol am y system grwnerol.

O ganlyniad, diwygiodd y Llywodraeth y Bil Cyrff Cyhoeddus ar 23 Tachwedd er mwyn caniatáu i'r Prif Grwner gael ei roi ar waith gydag amrediad y pwerau a ragwelwyd o dan Ran 1 Deddf 2009, gan gynnwys cyflwyno diwygiadau ar unwaith megis symud achosion yn haws rhwng awdurdodaethau crwneriaid. Bydd y Prif Grwner yn gyfrifol hefyd am gyfarwyddo crwneriaid, monitro cwestau aelodau'r lluoedd arfog, hyfforddi crwneriaid ac am adroddiad blynyddol a gyflwynir gerbron y Senedd. Bydd y pwerau hyn yn galluogi'r Prif Grwner i wella safonau ar draws y system yn ogystal â phennu safonau sylfaenol ar gyfer y gwasanaeth drwy'r Siarter newydd.

Yr unig eithriad i hyn yw'r swyddogaeth apelio o dan adran 40 Deddf 2009, na fydd yn cael ei gweithredu a bydd yn hytrach yn cael ei diddymu gan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Bydd hyn yn gadael y system bresennol o wneud iawn: lle gellir herio penderfyniadau drwy adolygiad barnwrol neu gellid gofyn am ail gwest, drwy gais i'r Uchel Lys gan, neu o dan awdurdod y Twrnai Cyffredinol. Nod y Llywodraeth felly yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r dulliau hyn i gael iawn drwy Siarter Genedlaethol Gwasanaeth y Crwner, a gyhoeddir yn gynnar yn 2012.

Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd hyn yn fodd i ganolbwyntio ar godi safon ymchwiliadau a chwestau crwneriaid i sicrhau bod teuluoedd mewn profedigaeth

yn fodlon â’r holl broses, heb yr angen am hawliau apelio newydd ac ymgyfreitha costus.

Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cynlluniau i weithredu’r swyddfa cyn gynted ag y bydd yn ymarferol yn 2012. Bydd yr Asesiad Effaith a gynhyrchwyd ar gyfer Deddf 2009 yn cael ei ddiweddaru yn y man i adlewyrchu’r cynnig diwygiedig i weithredu’r swydd.

## Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus - Crynodeb o’r ymatebion

1. Cafwyd cyfanswm o 12 o ymatebion i’r ymgynghoriad ynglŷn â’r cynnig i ddiddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys chwech ymateb gan unigolion, tri gan gynrychiolwyr mudiad elusennol, dau gan aelodau Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus ac un gan Fwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus ei hun.

2. Nid oedd gan 10 ymatebwr wrthwynebiad i’r cynnig i ddiddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus ar yr amod bod trefniadau llywodraethu cadarn eraill yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Roedd dau ymatebwr yn gwrthwynebu ei ddiddymu oherwydd pryderon na fyddai swyddogaethau Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael eu cyflawni’n ddigonol drwy ddulliau eraill.

## Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus - Ymatebion i gwestiynau penodol

### Cwestiwn 17: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus?

Nid oedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn gwrthwynebu'r cynnig i ddiddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Y farn gyffredinol oedd y dylai Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus barhau i weithredu fel Bwrdd. Fodd bynnag, oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol a gweledigaeth y Llywodraeth i ddiwygio Cyrff Hyd Braich, nid yw'n ymarferol i barhau â bwrdd cynghori fel Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae mwyafrif yr ymatebwyr, gan gynnwys rhai o Fwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cytuno â'r cynnig i ddiddymu ar yr amod bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith yn Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i gymryd lle'r Bwrdd. Nodwyd y safbwynt hwn hefyd yn Adroddiad Blynyddol 2010 Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus i'r Arglwydd Ganghellor.

Mae Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi mynegi pryder ynghylch yr arbedion swm cronnus nominal gweinyddol o oddeutu £300,000 ar gyfer blynyddoedd ariannol 2012-13 i 2014-15 ar sail gwariant llinell sylfaen 2010-11. Er bod y ffigurau hyn yn adlewyrchu amcangyfrif o gostau gweithredol cronnus Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ystod y tair blynedd hynny, nid yw'n caniatáu ar gyfer costau anweithredol a chefnogi'r trefniadau llywodraethu newydd a fyddai'n lleihau'r arbedion net. Cafwyd awgrymiadau y dylai'r dyfynbris adlewyrchu'r amcangyfrif o'r arbedion net blynyddol a chynnwys y costau o newid y trefniadau llywodraethu.

---

### Cwestiwn 18: A oes unrhyw rai o swyddogaethau Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Roedd dau ymatebwr a oedd yn gwrthwynebu diddymu'r Bwrdd yn credu na fyddai swyddogaethau Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael eu cyflawni'n ddigonol ar ôl ei ddiddymu. Dywedodd un ymatebwr y byddai arbenigedd yn y maes hwn yn cael ei golli yn sgil diddymu'r Bwrdd a byddai hyder yn y gwasanaeth yn dioddef. Mynegodd ymatebwr arall, er ei fod yn derbyn na allai'r Bwrdd barhau yn yr amgylchiadau economaidd presennol, ofnau na fyddai anghenion defnyddwyr a'u perthnasau'n cael eu cynrychioli'n ddigonol. Yr oedd barn gyffredinol, ymhlith y rhai a oedd yn cefnogi'r egwyddor o ddiddymu, ei bod yn anodd gwneud sylw ar ba mor ddigonol fyddai'r trefniadau yn y dyfodol heb wybodaeth bellach ar beth yn union fyddai'r trefniadau hyn.

Mae Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus ei hun yn pwyso ar y Llywodraeth i awdurdodi Bwrdd â phresenoldeb Anweithredol cryf gan gynnwys Cadeirydd Anweithredol a all roi cymorth i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a Gweinidogion i ddylanwadu ar y sefyllfa parthed y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac i hyrwyddo'r

ddeddfwriaeth. Yn wir, y farn ymhlith mwyafrif yr ymatebwyr yw y dylai'r strwythur newydd gynnwys swyddogion Anweithredol sydd â gwybodaeth a phrofiad digonol i alluogi craffu digon manwl ar waith Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mynegodd sawl ymatebwr y farn y dylai Bwrdd newydd gynnwys aelodau ag arbenigedd yn y sectorau iechyd, lles, y gyfraith a chyllid.

## Y Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus - Casgliad a'r camau nesaf

1. Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a barn y mwyafrif y dylai Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus, yn yr hinsawdd bresennol, gael ei ddiddymu. Penderfyniad y Llywodraeth yw bwrw ymlaen i ddiddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus.

2. Daeth dau brif bwynt i'r amlwg yn yr ymatebion a gafwyd, a cheir ymateb iddynt isod:

### *Llywodraethu yn y dyfodol*

3. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod angen rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i gymryd lle swyddogaethau Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus. I'r perwyl hwn, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cynnal adolygiad i ystyried y trefniadau newydd ar gyfer y strwythur llywodraethu i gymryd lle'r Bwrdd a'r prif drefniadau llywodraethu ar gyfer Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae'r adolygiad hwn wedi ystyried y farn bod angen presenoldeb Anweithredol cryf yn ogystal ag arbenigedd mewn nifer o ddisgyblaethau.

4. Mae Gweinidogion yn awr yn ystyried opsiynau manwl ar gyfer trefniadau llywodraethu ar gyfer y dyfodol sy'n deillio o'r adolygiad a bydd yn hysbysu rhanddeiliaid cyn hir o'r penderfyniadau cyn llunio unrhyw Orchymyn i ddiddymu'r Bwrdd Gwarcheidwad Cyhoeddus a gyflwynir gerbron y Senedd.

### *Costau/Arbedion*

5. Yn ei ymateb, mae Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi nodi bod y papur ymgynghori'n datgan y byddai diddymu'r Bwrdd yn golygu arbed swm cronnus nominal gweinyddol o oddeutu £300,000. Er ei fod yn cytuno y gallai hyn adlewyrchu costau gweithredu cronnus, dros y tair blynedd nesaf, dywed nad yw'n caniatáu ar gyfer cost y trefniadau llywodraethu newydd ac y byddai'n fwy priodol a thryloyw i nodi amcangyfrif o'r arbedion blynyddol net gan ystyried costau'r trefniadau disodli.

6. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gallai costau pellach godi ar ôl cytuno ar y trefniadau llywodraethu newydd. Fodd bynnag, nes ceir cytundeb ar y trefniadau newydd nid oes modd rhoi ffigurau pendant ar gyfer y costau hyn. Cydnabyddir y gallai hyn olygu lleihau'r ffigur o £300,000 a roddwyd fel amcangyfrif o'r arbedion yn y papur ymgynghori. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn hyderus y bydd yn cyflawni arbedion i'r coffrau cyhoeddus.

**Y Camau nesaf**

7. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn drafft yng Ngwanwyn 2012 a fydd yn diddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Fel yn achos pob Gorchymyn a wneir o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bydd yn dilyn y weithdrefn seneddol gadarnhaol uwch a amlinellir yn adran 11 y Ddeddf a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y ddau Dŷ Seneddol cyn y daw i rym.

8. Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith cyn ymgynghori gan nad yw'r cynnig i ddiddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn effeithio ar fusnes, cymdeithas sifil na materion rheoleiddiol. Nid oes effaith ar staff ac ni fydd costau/buddiannau i'r sector cyhoeddus yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn. Nid oes tystiolaeth o'r ymatebion i gefnogi cynnal Asesiad Effaith ar ôl yr ymgynghoriad.

9. Ni chafwyd sylwadau'n ymwneud â'r effeithiau ar gydraddoldeb a fyddai'n deillio o ddiddymu. Fodd bynnag, mae ymarferiad sgrinio cychwynnol yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a ddarparwyd ochr yn ochr â'r papur ymgynghori wedi'i ddiweddaru ac fe'i cyhoeddir ochr yn ochr â'r papur ymateb hwn.

10. Bydd yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru ymhellach ar ôl i'r trefniadau llywodraethu newydd gael eu cadarnhau.

## Yr Archifau Gwladol - Crynodeb o’r ymatebion

1. Cafwyd cyfanswm o 12 o ymatebion i’r cynigion ynglŷn â’r Archifau Gwladol yn y papur ymgynghori. Roedd naw o’r ymatebion wedi’u gwneud gan unigolion, gyda’r ymatebion eraill wedi’i gwneud gan Lywodraeth Cymru, Awdurdod Heddlu Durham, a’r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

2. Gofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent yn teimlo a oedd yn briodol yn awr i adlewyrchu'r newidiadau gweinyddol a gyflawnwyd eisoes ar ffurf deddfwriaeth, er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu cyfuno'n briodol o fewn yr Archifau Gwladol. Roedd yr adran yn ymwybodol yr hoffai rhai ymatebwyr datgan barn hefyd ar yr angen i gyfuno’r swyddogaethau arfaethedig yn y lle cyntaf a gofyn cwestiynau ar sut y gallai hyn effeithio ar waith yr Archifau Gwladol. Rhagwelir y gallai’r broses ymgynghori fod yn gyfrwng ar gyfer sylwadau mwy cyffredinol ar wasanaethau’r Archifau Gwladol i’r cyhoedd a grwpiau a sefydliadau penodol yn y sector archifol.

3. O’r ymatebion hynny a oedd yn anghytuno â’r cynigion, roedd y rhesymau’n cynnwys amseriad y newidiadau, defnydd amhriodol o amser Seneddol, a phryderon ynglŷn â sut y gallai’r cynigion effeithio ar lefelau gwasanaeth presennol yr Archifau Gwladol.

4. Roedd y rhai a oedd yn cytuno â’r cynigion yn cytuno’n gyffredinol ag amseriad y newidiadau a chymerwyd y cyfle i longyfarch yr Archifau Gwladol ar y gwasanaethau a ddarperir. Nid oedd rhai ymatebwyr wedi gwneud sylwadau ac nid oedd eraill yn cytuno nac yn anghytuno â’r cynigion ond roeddent wedi gwneud sylw ar wasanaethau’r Archifau Gwladol.

## Yr Archifau Gwladol - Ymatebion i gwestiynau penodol

**Cwestiwn 19: A ydych chi'n cytuno ei bod yn briodol yn awr inni adlewyrchu'r newidiadau gweinyddol a gyflawnwyd eisoes ar ffurf deddfwriaeth, er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu cyfuno'n briodol?**

1. Cafwyd 12 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd chwe ymatebwr yn cytuno â'r cynigion. Roedd pedwar yn anghytuno â'r cynigion ac nid oedd dau yn cytuno nac yn anghytuno.

2. O'r 12 ymateb a gafwyd, cafwyd sylwadau gan bump ohonynt a oedd yn ymwneud â'r Bil Cyrff Cyhoeddus, gwnaeth tri ohonynt sylwadau ar wasanaethau'r Archifau Gwladol. Roedd un ymateb yn ymdrin ag archif heblaw'r Archifau Gwladol ac nid oed tri wedi gwneud sylwadau o gwbl.

3. O'r sylwadau a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Bil Cyrff Cyhoeddus, roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion wedi mynegi pryderon ynghylch defnydd amhriodol o amser Seneddol, roeddent yn gofyn pam nad oedd newidiadau gweinyddol wedi dilyn newidiadau deddfwriaethol, ac roeddent yn teimlo na ddylai'r Archifau Gwladol fod yn rhan o'r Bil Cyrff Cyhoeddus gan eu bod yn darparu gwasanaeth da eisoes.

4. Nid oedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r cynigion wedi gwneud dim sylwadau neu roeddent wedi ailddatgan eu cefnogaeth i amseriad a natur y newidiadau. Gwnaeth ymatebwr a oedd yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig sylw yr ymddengys a oedd yn ymwneud ag archif yn Llundain nad oedd yn rhan o'r Archifau Gwladol.

## Yr Archifau Gwladol - Casgliad a’r camau nesaf

1. Mae’r Llywodraeth yn croesawu’r ymatebion a gafwyd i’r diwygiadau arfaethedig i’r Archifau Gwladol drwy’r Bil Cyrff Cyhoeddus. Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, mae’r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r diwygiadau i’r Archifau Gwladol gan ddefnyddio’r pwerau a geir yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Gall y Llywodraeth sicrhau’r cyhoedd na fydd y cynigion yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar wasanaethau’r Archifau Gwladol nac yn gwneud defnydd aneffeithlon o amser Seneddol.

2. Credwn y gallai rhai o’r sylwadau negyddol fod wedi deillio o gamddealltwriaeth o’r diwygiadau sy’n digwydd. Mae’n bwysig egluro na fydd y diwygiadau a gynigir yn cael dim effaith uniongyrchol ar swyddogaethau’r Archifau Gwladol ac mai’r cyfan fydd yn digwydd yw y bydd yn gosod y trefniadau gweinyddol presennol mewn deddfwriaeth. Mae’n bosibl hefyd bod sylwadau o’r fath wedi deillio o bryderon sylfaenol ynghylch amcanion cyffredinol y Bil Cyrff Cyhoeddus, gan wneud i ymatebwyr amau’r effaith y gallai’r newidiadau ei chael ar yr Archifau Gwladol a’r amser Seneddol a ddefnyddid i roi’r newidiadau hynny ar waith.

3. Gan y byddai’n rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol fel arall ar rai o gyrff yr Archifau Gwladol i roi’r newidiadau a gynigir ar waith mae’r adran a’r Archif Gwladol o’r farn bod Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn gyfle defnyddiol i roi safle gweinyddol presennol yr Archifau Gwladol ar seiliau cyfreithiol cadarn gan leihau, drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, faint o amser Seneddol fyddai ei angen i gyflawni hyn.

4. Roedd yr adran yn falch bod cyfran fawr o’r ymatebwyr yn cytuno â’r cynigion, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac unigolion a oedd yn canmol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a’r Archifau Gwladol am gyflwyno’r diwygiadau ar yr adeg hon. Ni fyddai eu cynnwys yn y Ddeddf yn ail-frandio’r Archifau Gwladol, ond bydd yn cadarnhau safle presennol yr Archifau Gwladol mewn statud.

5. Roedd un sylw’n argymell y dylai’r Archifau Gwladol ei gwneud yn haws i ddod o hyd i’r cofnodion a gedwir ganddynt. Bydd offer chwilio ar-lein newydd yr Archif, Discovery, yn cynnig ffordd gyflymach a haws i ddefnyddwyr ganfod y dogfennau sydd eu hangen arnynt. Mae’r gwasanaeth hwn yn mynd trwy gyfnod o dreial ar hyn o bryd ac mae’r Archif yn cysylltu â’r defnyddwyr i wahodd adborth ar sut i’w wella.

6. Ers cychwyn ar y broses ymgynghori bu’n rhaid ychwanegu Llyfrfa Ei Mawrhydi (HMSO) at Atodlen 5 y Bil. Bu’n rhaid gwneud hyn am fod nifer fechan o’i swyddogaethau’n bod mewn statud ac roedd angen ychwanegu HMSO at Atodlen 5 i sicrhau y gellid trosglwyddo’r swyddogaethau hyn fel rhan o’r cynigion. Cydsyniodd y Palas i gynnwys HMSO yn Atodlen 5, a fydd yn ychwanegu elfen dechnegol fechan at y cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad.

7. Ar adeg briodol mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn drafft a fydd yn trosglwyddo swyddogaethau i'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus a rhoi iddi'r teitl Yr Archifau Gwladol. Fel yn achos pob Gorchymyn a wneir o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bydd yn dilyn y weithdrefn seneddol gadarnhaol uwch a amlinellir yn adran 11 y Ddeddf a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y ddau Dŷ Seneddol cyn y daw i rym.

8. Nid oedd angen Asesiad Effaith ar adeg yr ymgynghoriad gan nad yw'r cynnig i ddiddymu'r Pwyllgor yn effeithio ar fusnes, cymdeithas sifil na materion rheoleiddiol. Nid oes effaith ar staff ac ni fydd costau/buddiannau i'r sector cyhoeddus yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn.

9. Nid oes dim tystiolaeth yn yr ymatebion i gefnogi cynnal Asesiad Effaith nac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn. Fodd bynnag, mae ymarferiad sgrinio cychwynnol yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a ddarparwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad wedi'i ddiweddaru ac fe'i cyhoeddir ochr yn ochr â'r papur ymateb hwn.

## Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr - Crynodeb o'r ymatebion

10. Cafwyd 19 o ymatebion ynglŷn â'r cynnig i ddiddymu'r Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr. Roedd hyn yn cynnwys 13 gan unigolion, 3 gan gynrychiolwyr mudiadau elusennol, 2 gan gyrff cynrychioliadol ac 1 gan Gorff Hyd Braich.

11. Dadansoddwyd yr ymatebion am lefelau'r gefnogaeth i'r cynnig i ddiddymu'r Panel. Dadansoddwyd y dystiolaeth hefyd i ganfod a oedd unrhyw rai o swyddogaethau'r Panel na ellid eu cyflawni gan y Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion, ac a oedd y sawl a ymatebodd yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith uniongyrchol o bwys arnynt.

12. Ar y cyfan roedd safbwyntiau'r ymatebwyr yn gyfartal rhwng cefnogaeth i'r cynigion/dim barn benodol a gwrthwynebiad. Roedd hanner y rhai a ymatebodd yn teimlo y gallai swyddogaethau'r Panel gael eu cyflawni gan y Comisiynydd Dioddefwyr. Roedd y rhai na chredai hynny, ar y cyfan, yn poeni'n bennaf ynghylch safle dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol.

## Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr- Ymatebion i gwestiynau penodol

**Cwestiwn 20: Beth yw eich barn am y cynlluniau i ddiddymu'r Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr?**

Roedd wyth ymatebwr yn gwrthwynebu’r cynnig. O’r naw hynny, dywedodd pedwar y dylai rôl dioddefwyr gael mwy o sylw neu fod yn fwy blaenllaw yn y system cyfiawnder troseddol.

Roedd chwe ymatebwr yn cefnogi’r cynnig ac nid oedd tri wedi cynnig barn y naill ffordd na’r llall drwy beidio ag ymateb i’r cwestiwn.

---

**Cwestiwn 21: A ydych chi'n credu bod unrhyw rai o swyddogaethau'r Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr na all y Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion fynd i'r afael â hwy'n ddigonol? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.**

Roedd deg ymatebwr wedi ateb ‘nac ydw’ i’r cwestiwn hwn, gan ddweud eu bod o’r farn y gallai’r swyddogaethau gael eu cyflawni’n ddigonol gan y Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion.

Roedd pedwar ymatebwr wedi ateb ‘ydw’, gan ddatgan amrywiaeth o bryderon, gan gynnwys colli arbenigedd, colli didwylledd a’r gallu i gysylltu, llai o bwyslais ar y lleol a bod y Panel yn llais arall sy’n werth gwrando arno.

Nid oedd pump wedi ateb y cwestiwn.

---

**Cwestiwn 22: A gaiff y cynigion unrhyw effaith uniongyrchol o bwys arnoch chi (os felly, esboniwch yr effaith)?**

Dywedodd wyth ymatebwr na fyddai’r cynnig yn cael effaith uniongyrchol o bwys arnynt ac nid oedd saith wedi datgan barn y naill ffordd na’r llall drwy beidio ag ateb y cwestiwn.

Dywedodd pedwar y byddai’n cael effaith, ond dim ond un a roddodd esboniad, gan ddweud y byddai ‘arbenigedd yn y maes hwn yn cael ei golli a bydd llai o hyder yn y gyfraith.’

## Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr - Casgliad a'r camau nesaf

1. Er bod bron i hanner yr ymatebwyr yn gwrthwynebu diddymu'r Panel Ymgynghorol i Ddefnyddwyr, roedd y rhai hynny a ymdrechodd i esbonio eu gwrthwynebiad yn aml yn tynnu sylw at bryder ehangach am safle dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol. Yn wir, dim ond pedwar o'r rhai a ymatebodd a ddywedodd eu bod yn teimlo na allai'r Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion gyflawni swyddogaethau'r Panel yn ddigonol.

2. Mae'r Llywodraeth yn rhannu'r pryder cyffredinol hwn, ac mae'n benderfynol o wrando ar ddioddefwyr troseddau ac ymateb i'w hanghenion. Mae wedi ymrwymo i gynorthwyo dioddefwyr troseddau drwy'r system cyfiawnder troseddol, i sicrhau eu bod yn cael cymorth sy'n briodol i'w hanghenion, ac i ystyried eu profiadau wrth lunio polisïau.

3. Gyda golwg ar hyn, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynnal adolygiad llawn ar hyn o bryd o wasanaethau a chymorth i ddioddefwyr, a disgwylir y bydd ymgynghoriad yn agor yn fuan. Cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda sefydliadau dioddefwyr, lle'r oedd y Gweinidog sy'n gyfrifol am ddioddefwyr yn bresennol, yn gynharach eleni.

4. Fodd bynnag, ni chafwyd llawer o ymateb yn yr ymgynghoriad hwn i awgrymu bod angen cadw'r Panel i gryfhau llais dioddefwyr. Mae'r Llywodraeth yn dal i gredu bod angen dull mwy hyblyg sy'n cael ei dargedu'n well i gwrdd â dioddefwyr ac i wrando arnynt, a bod y gofyniad i ymgynghori â phanel statudol o ddioddefwyr troseddau'n rhy ragnodol.

5. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol bod Louise Casey wedi cyhoeddi ei phenderfyniad i ymddiswyddo fel Comisiynydd Dioddefwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori. O gofio pwysigrwydd y rôl hon, credwn y dylem roi sylw i ddyfodol rôl y Comisiynydd cyn gwneud penderfyniad ar ddyfodol y Panel. Oherwydd hynny, nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud ynghylch diddymu'r Panel hyd yma.

6. Ni chafwyd sylwadau ynglŷn â'r amcangyfrif o'r arbedion a all godi yn sgil y diwygiadau. Ni chafodd Asesiad Effaith ei gynnal fel rhan o'r ymgynghoriad gan nad oedd y cynnig polisi'n effeithio ar fusnes na chymdeithas sifil; nid oedd yn (ddad) rheoleiddiol; ac roedd yr amcangyfrif o gostau'r sector cyhoeddus o dan feincnod y sector cyhoeddus (£5m) lle mae angen Asesiad Effaith. O ganlyniad, ni chafodd Asesiad Effaith ôl ymgynghoriad ei gynnal.

7. Ni chafwyd sylwadau ynglŷn ag unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb sy'n deillio o'r diwygiadau. Bydd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb pellach yn cael ei gyhoeddi, os bydd angen, os a phan wneir penderfyniad ar ddyfodol y Panel.

## Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - Crynodeb o'r ymatebion

1. Cafwyd 70 o ymatebion ynglŷn â'r cynnig i ddiddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd hyn yn cynnwys 20 gan dimau / gwasanaethau troseddau ieuenctid a'r ystâd ddiogel; 13 gan gyrff proffesiynol; 11 gan unigolion; wyth gan gynrychiolwyr y sector gwirfoddol; pedwar gan ynadon a'r farnwriaeth; dau gan gyrff hyd braich; un gan ddarparwr yn y sector preifat; un gan Faer Llundain ac un gan Lywodraeth Cymru. Cafodd yr adran hefyd naw ymateb dienw.

2. Dadansoddwyd yr ymatebion i ganfod lefelau'r gefnogaeth i'r cynnig i ddiddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Dadansoddwyd tystiolaeth hefyd i ganfod a oedd unrhyw rai o swyddogaethau'r Bwrdd y gellid eu cyflawni gan yr Is-adran Cyfiawnder Ieuenctid o fewn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ac a oedd y sawl a oedd yn ymateb yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith uniongyrchol o bwys arnynt.

3. Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig i ddiddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd yr ymatebion hyn yn pwysleisio'r angen am yr arweinyddiaeth annibynnol i'r system cyfiawnder ieuenctid a geid gan y bwrdd. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y Bwrdd wedi creu system cyfiawnder arbennig ar gyfer pobl ifanc ac roeddent yn ofni y byddai'n dychwelyd i'r sefyllfa a fodolai cyn ei chreu fel rhan o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a oedd rhan o'r ymateb i adroddiad 1996 y Comisiwn Archwilio ('Misspent Youth') a ganfu nad oedd dim gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid integredig a bod y system a fodolai yn aneffeithlon a chostus.

4. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau bod y Bwrdd yn rhoi cydlyniant i'r system cyfiawnder ieuenctid a bod y Bwrdd mewn sefyllfa gref i ddylanwadu ar adrannau'r Llywodraeth. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai ei ddiddymu'n arwain at golli, nid yn unig arweinyddiaeth holl bwysig, ond hefyd arbenigedd ar lefel genedlaethol a oedd wedi arwain at welliannau i'r system ei hun a hefyd at ddeilliannau i bobl ifanc sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu. Mynegwyd amheuaeth a allai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ymgymryd â'r arweinyddiaeth honno a darparu trefniadau llywodraethu ar gyfer cyfiawnder ieuenctid ac roedd ofnau y byddai cyfiawnder ieuenctid yn cael ei symud i'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) ac, o ganlyniad i hynny, byddai cyfiawnder ieuenctid yn uno, neu'n eilradd i'r system cyfiawnder oedolion. Yn y cyd-destun hwn cafwyd consensws clir y dylid cadw pwyslais ar wahân i gyfiawnder ieuenctid.

5. Roedd y rhai a gefnogai diddymu'n dibynnu ar amrywiaeth o bwyntiau. Ymhlith y rhain oedd yr haeriad y dylai swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gael eu trosglwyddo i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn gwneud gweinidogion sydd â chyfrifoldeb am gyfiawnder ieuenctid yn fwy atebol ac i ysgogi gwelliannau, a bod integreiddio mwy clos rhwng rheolaeth cyfiawnder oedolion ac ieuenctid yn ddymunol ac yn anorfod.

## Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - Ymatebion i gwestiynau penodol

### Cwestiwn 23: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig. Roedd y rhan fwyaf yn dadlau na fyddai'n ddoeth nac yn rhesymol i ddiddymu'r Bwrdd gan ei fod, yn eu barn hwy, wedi perfformio'n dda ers ei sefydlu yn 2000. Cyfeiriodd llawer at y diffyg tystiolaeth o blaid ei ddiddymu ac roeddent yn teimlo bod y Bwrdd wedi chwarae rôl allweddol i leihau nifer y bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol; ei fod wedi lleihau cyfradd troseddu gan bobl ifanc, a lleihau nifer y bobl ifanc mewn canolfannau ar gyfer pobl ifanc. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn pryderu y byddai diddymu'r Bwrdd yn arwain at golli arbenigedd a/ neu arweinyddiaeth, a oedd yn hwyluso i weithredu holl elfennau gwahanol y system cyfiawnder ieuenctid. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dueddol o bwysleisio sgiliau ac arbenigedd staff y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac roeddent yn poeni y byddai'r rhain yn cael eu colli pe bai'r bwrdd yn cael ei drosglwyddo i'r adran. Roedd yr ymatebwyr hyn yn amheus a fyddai gan weision sifil yr arbenigedd mewn cyfiawnder ieuenctid i ddarparu lefel briodol o lywodraethu cenedlaethol ac roeddent yn teimlo na ellid cyflawni datblygiadau arloesol fel cyflwyno rhaglenni goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth dwys, pecynnau adsefydlu a maethu dwys o fewn un o adrannau'r llywodraeth. Roedd yr ymatebwyr yn poeni hefyd y byddai'r cysylltiadau a oedd wedi datblygu rhwng sefydliadau proffesiynol a rhanddeiliaid allweddol yn cael eu colli pe bai'r Bwrdd yn cael ei ddiddymu, ac y byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar ddeilliannau i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Rhoddodd rhai ymatebwyr sylw i bwynt y Llywodraeth fod trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd i'r adran yn angenrheidiol i wneud gweinidogion yn fwy atebol am gyfiawnder ieuenctid ac i fod yn ysgogiad i wella. Roedd yr ymatebwyr hyn yn haeru bod y llinellau atebolrwydd presennol yn ddigonol a chan fod y Bwrdd eisoes yn atebol i Weinidogion, roedd y cynnig yn ddiangen. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau bod y Bwrdd, fel Corff Cyhoeddus Anadrannol (NDPB), mewn sefyllfa well i ddylanwadu ar waith adrannau eraill y Llywodraeth. Roedd barn bendant bod cadw system cyfiawnder ieuenctid a oedd ar wahân i'r system oedolion yn hanfodol ac roedd y farn hon yn thema gyffredinol i'r holl ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd nifer fach yn haeru bod y Bwrdd yn cyflawni rôl dechnegol (yn enwedig o ran lleoli pobl ifanc mewn caethiwed) ac felly dylai fod wedi pasio profion Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cyrff cyhoeddus ac na ddylid ei ddiddymu.

Roedd lleiafrif bychan yn cefnogi'r cynnig i ddiddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd y rhain yn honni bod diddymu'r Bwrdd yn gam dymunol gan nad oedd wedi bod mor llwyddiannus ag yr oedd llawer yn ei honni. Nid oedd wedi llwyddo i gyflawni ei gylch gwaith, yn yr ystyr bod unrhyw newidiadau yn y boblogaeth dan glo wedi digwydd o ganlyniad i newidiadau yn nifer y rhai a oedd wedi'u caethiwo am y tro cyntaf; roedd wedi methu'n gyson â chyrraedd ei dargedu i oruchwylio safoni'r pecyn rheoli achosion yn briodol, a bu'n aneffeithiol ac amhendant mewn achosion o'r fath fel nad oedd yn gallu sicrhau cytundeb ar y materion symlaf, megis y diffiniad o'r risg o niwed gydag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Roedd

ymatebwyr eraill yn cefnogi ei ddiddymu gan fod darpariaeth wedi'i gwneud i sicrhau arweinyddiaeth glir ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yn yr adran, ac y byddai darpariaeth ar gyfer grŵp cyfeirio ar gyfiawnder ieuenctid sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol i ychwanegu cefnogaeth a her at yr Is-adran Cyfiawnder Ieuenctid.

---

**Cwestiwn 24: A ydych chi'n credu bod unrhyw rai o swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.**

Ar y cyfan, yr atebion i gwestiwn 23 oedd y rhai mwyaf manwl ac o ystyried y gwrthwynebiad pendant i ddiddymu, roedd llawer o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ddim mwy nag ailadrodd y pwynt y dylai'r swyddogaethau gael eu cyflawni gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid fel sy'n digwydd yn awr.

Roedd y rhai a oedd wedi rhoi sylw i'r cwestiwn hwn yn benodol yn tueddu i gytuno mai'r swyddogaethau a amlinellwyd yng nghynnig y Llywodraeth oedd y rhai cywir. Y swyddogaethau hyn oedd:

- Goruchwylio gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid;
- Canfod a lledaenu arferion effeithiol;
- Comisiynu'r ystâd ddiogel ar gyfer rhai o dan 18 oed;
- Lleoli pobl ifanc yn yr ystâd ddiogel.

Dywedodd nifer eu bod yn pryderu y byddai rhoi swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o dan ofal yr adran yn golygu y byddai'r system cyfiawnder ieuenctid wedyn yn eilradd i'r system ar gyfer oedolion, ac na fyddai hynny'n beth da i'r system gyntaf. Yr ofn a fynegwyd oedd y byddai troseddwyr ifanc yn cael eu cyfuno ag oedolion sydd wedi troseddu fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol, ac na fyddai eu hanghenion yn cael eu deall nac yn cael sylw. Dywedodd eraill nad oedd gan yr adran swyddogion a feddai ar y profiad angenrheidiol o faterion cyfiawnder ieuenctid i'w galluogi i gyflawni rôl y Bwrdd.

Roedd lleiafrif amlwg o'r ymatebwyr yn cytuno y gallai corff newydd o fewn y Weinyddiaeth Cyfiawnder gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd. Wrth ddatgan y farn hon, roedd y mwyafrif ohonynt yn pwysleisio y dylai'r Isadran Cyfiawnder Ieuenctid fabwysiadu amryw o flaenoriaethau i sicrhau gwelliant parhaus yn y system cyfiawnder ieuenctid. Roedd y rhain yn cynnwys goruchwylio Timau Troseddau Ieuenctid, a chydnabod bod lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ystyriaeth graidd, i ddiogelu buddiannau unigolion agored i niwed.

---

**Cwestiwn 25: Sut yn eich barn chi y gall y Llywodraeth sicrhau orau bod cyfiawnder ieuenctid yn cael ei lywodraethu'n effeithiol yn y dyfodol?**

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr mai'r ffordd orau y gallai'r Llywodraeth sicrhau bod cyfiawnder ieuenctid yn cael ei lywodraethu'n effeithiol oedd drwy gadw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bod yn rhaid i gyfiawnder ieuenctid gadw hunaniaeth ar wahân a mynegwyd ofnau bod y Llywodraeth yn cynnig dod â chyfiawnder ieuenctid o fewn NOMS. Heblaw am y materion hyn, y pwyntiau mwyaf cyffredin a godwyd oedd sicrhau'r arweinyddiaeth a'r arbenigedd sydd eu heisiau yn yr adran. Yn ôl eraill, gan fod gan y Bwrdd enw da am lwyddo i leihau aildroseddu ymhlith pobl ifanc; eu niferoedd yn y system cyfiawnder ieuenctid, a nifer y bobl ifanc mewn caethiwed, nid oedd yr achos dros ei ddiddymu wedi argyhoeddi. Roedd ychydig o ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd strwythur y Bwrdd o ran cysylltu byrddau rheoli rhanbarthol a lleol i reoli troseddau ieuenctid yn effeithiol.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn mai'r ffactor pwysicaf i sicrhau bod cyfiawnder ieuenctid yn cael ei lywodraethu'n effeithiol yn y dyfodol oedd gofalu bod corff canolog yn cael ei gadw, a'i fod o dan arweiniad rhywun ag arbenigedd digonol yn y maes cyfiawnder ieuenctid. Mynegodd eraill eu hyder bod penodiad John Drew, Prif Weithredwr y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, i oruchwylio dros y cyfnod pontio ac i arwain yr Isadran Cyfiawnder Ieuenctid arfaethedig yn ddulliau o sicrhau bod cyfiawnder ieuenctid yn cael ei lywodraethu'n effeithiol yn y dyfodol.

## Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - Casgliad a’r camau nesaf

9. Mae’r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion i’r ymgynghoriad wrth lunio’i chynlluniau ar gyfer dyfodol y system cyfiawnder ieuenctid. Rydym wedi nodi bod mwyafrif yr ymatebion yn erbyn diddymu’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

10. Ar 23 Tachwedd gwnaeth yr Arglwyd McNally ddatganiad pan oedd yr Arglwyddi’n ystyried gwelliannau Tŷ’r Cyffredin i’r Bil Cyrff Cyhoeddus bod y Llywodraeth wedi penderfynu peidio â diddymu’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

11. Yn ystod taith i Bil, rydym yn cydnabod bod cryn bryder wedi’i fynegi ynghylch y cynnig i ddiddymu’r corff hwn. Roedd y penderfyniad i beidio ei ddiddymu’n dangos bod y Llywodraeth wedi gwrando ar y dadleuon yn y ddau Dŷ, yn ogystal â’r pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i’r ymgynghoriad hwn.

12. Mae’r Llywodraeth yn dal o’r farn y dylid cael mwy o atebolrwydd gweinidogol uniongyrchol dros gyfiawnder ieuenctid, a bod dadl gref dros ddiwygio’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae Gweinidogion yn awr yn ystyried yr opsiynau i’w ddiwygio y tu allan i Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 a bydd cynigion yn cael eu cyhoeddi yn y man.

## Manylion cysylltu Cydlynydd yr Ymgynghoriad

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, dylech gysylltu â Chydlynydd Ymgynghori'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn consultation@justice.gsi.gov.uk.

Neu, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

**Cydlynydd Ymgynghori'r Weinyddiaeth Cyfiawnder**
**Yr Uned Gwell Rheoleiddio**
**Gwasanaethau Dadansoddi Corfforaethol a Mynediad at Gyfiawnder**
**7fed Llawr, Piler 7.02**
**102 Petty France**
**Llundain SW1H 9AJ**

## Y meini prawf ymgynghori

Dyma'r saith maen prawf ymgynghori:

1. **Pa bryd y dylid ymgynghori** – Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar adeg pan fydd modd dylanwadu ar ganlyniad y polisi.

2. **Hyd yr ymarferion ymgynghori** – Dylai ymgynghoriadau bara o leiaf 12 wythnos ond dylid ystyried amserlen hwy os yw hynny'n ymarferol ac yn synhwyrol.

3. **Eglurder o ran cwmpas ac effaith** – Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynglŷn â'r broses ymgynghori, beth sy'n cael ei gynnig, i ba raddau y gellid dylanwadu ar bethau a chostau a buddion tebygol y cynigion.

4. **Ymarferion ymgynghori agored** – Dylid llunio ymarferion ymgynghori fel eu bod yn hwylus i'r bobl y bwriada'r ymarfer eu cyrraedd, gan eu targedu'n glir at y bobl hynny.

5. **Baich yr ymgynghori** – Mae'n hanfodol cadw baich yr ymgynghori mor ysgafn ag y bo modd er mwyn i'r ymgynghori fod yn effeithiol ac er mwyn sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â hwy'n cefnogi'r broses.

6. **Ymarferion ymgynghori ymatebol** – Dylid dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghori'n ofalus a rhoi adborth clir i'r ymatebwyr ar ôl yr ymgynghori.

7. **Y gallu i ymgynghori** – Dylai swyddogion sy'n ymgynghori geisio canllawiau ynglŷn â sut mae cynnal ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn sgil y profiad.

Rhaid atgynhyrchu'r meini prawf hyn ym mhob dogfen ymgynghori.

## Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

*Cyffredinol*

Kevin Burdekin

Sheila Carmen Charles

Edward Clarke

Stephen Pope

Martyn Weller (Ymddiriedolwr, Disability Action)

*Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd*

Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd

Chris Bell (Cynghorydd Polisi, Shergroup)

Cymdeithas Ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon

Tanya Callman (Bargyfreithwraig a Hyfforddwraig yn y Gyfraith)

Alex Cosgrove (The Grow Organisation)

Consumer Focus Scotland

Brenda Margaret Crisell (Barnwr Tribiwnlys Cyflogedig)

Yr Athro Gavin Drewry

Heddlu Durham ac Awdurdod Heddlu Durham

Education Appeals Support Initiative Group

JUSTICE

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol

Londonwide Education Appeals Support Initiative Group

Dr Niall MacKinnon

Mencap

Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Roland C Powell

Bernard Quoroll

Yr Athro Colin T Reid

Llywodraeth yr Alban

Fforwm Tribiwnlysoedd yr Alban

Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd

Y Sefydliad Safonau Masnach

Angela Truell (Cyfreithwraig)

Bwrdd Gwasanaeth y Tribiwnlys Prisio

Llywodraeth Cymru

Robert Wyllie

*Byrddau'r Llysoedd*

Bwrdd Llysoedd Swyddi Bedford, Swydd Hertford a Dyffryn Tafwys

Chris Bell (Cynghorydd Polisi, Shergroup)

John Lawrence Carter, Cadeirydd Bwrdd Llysoedd Avon a Gwlad yr Haf, Dyfnaint a Chernyw a Swydd Gaerloyw

Alex Cosgrove (The Grow Organisation)

Gareth Davies

Heddlu Durham ac Awdurdod Heddlu Durham

Brendan Fulham, Cadeirydd Bwrdd Llysoedd Swydd Gaergrawnt, Essex, Norfolk a Suffolk

Bwrdd Llysoedd Caint, Surrey a Sussex

Susan Ann Khan, Cadeirydd Bwrdd Llysoedd Cumbria a Swydd Gaerhirfryn

Bwrdd Llysoedd Swydd Lincoln, Swydd Gaerlŷr a Rutland a Northampton

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Grŵp Llywodraeth Leol

Cymdeithas yr Ynadon

Mencap

Ray Palmer, Cadeirydd Bwrdd Llysoedd Dorset, Hampshire ac Ynys Wyth a Wiltshire

Cymorth i Ddioddefwyr

*Pwyllgor Rheolau Llys y Goron*

Chris Bell (Cynghorydd Polisi, Shergroup)

Heddlu Durham ac Awdurdod Heddlu Durham

Cymdeithas y Cyfreithwyr

*Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi*

David Abbott, Prif Arolygydd Dros Dro Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi tan 31 Rhagfyr 2010

Heddlu Durham ac Awdurdod Heddlu Durham

Grŵp y Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol

Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi

INQUEST

Cymdeithas y Cyfreithwyr

JUSTICE

*Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon*

Cyngor y Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon)

Heddlu Durham ac Awdurdod Heddlu Durham

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Cymdeithas yr Ynadon

Cymorth i Ddioddefwyr

*Swyddfa'r Prif Grwner*

Action Against Medical Accidents

Sue Ainsworth

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol

Chris Bell (Cynghorydd Polisi, Shergroup)

The Brethren Christian Fellowship (UK)

Cardiac Risk in the Young

Child Bereavement Charity

Coroners' Court Support Service

Criminal Justice Alliance

Gofal Profedigaeth Cruse

Disaster Action

Heddlu Durham ac Awdurdod Heddlu Durham

Anthony Heaton-Armstrong (Aelod o Dîm Adolygiad 'Luce', Bargyfreithiwr mewn practis annibynnol)

Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

Panel Cynghori Annibynnol ar Farwolaethau yn y Ddalfa

INQUEST

JUSTICE

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Grŵp Llywodraeth Leol

Mencap

Ramzan Mohayuddin LLB FCMI MIFL PGCE (Cadeirydd Sefydliad Saad)

Alick Moore

Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Roland C Powell

Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai

Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf

Beverley Radcliffe (Cyfarwyddwr, Coroners' Court Support Service)

RoadPeace

Y Lleng Brydeinig
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Coleg Brenhinol y Patholegwyr
SADS UK, the Ashley Jolly SAD Trust
Llywodraeth yr Alban
UK Missing Persons Bureau (rhan o Asiantaeth Genedlaethol Gwella'r Heddlu)
Cymorth i Ddioddefwyr
2607 o aelodau'r cyhoedd mewn ymateb i ymgyrch gan y Lleng Brydeinig

*Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus*
Chris Bell (Cynghorydd Polisi, Shergroup)
Lionel Joyce (Aelod, Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus)
Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Grŵp Llywodraeth Leol
Solicitors for the Elderly
Sue Whittaker (Aelod, Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus)

*Yr Archifau Gwladol*
Chris Bell (Cynghorydd Polisi, Shergroup)
Heddlu Durham ac Awdurdod Heddlu Durham
Dr Judith Mortimore
Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

*Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr*
Chris Bell (Cynghorydd Polisi, Shergroup)
Brake
Alex Cosgrove (The Grow Organisation)
Heddlu Durham ac Awdurdod Heddlu Durham
Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI)
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Cymdeithas yr Ynadon
Alick Moore
Frank Mullane (cyn aelod o'r Panel)
Roland C Powell
RoadPeace
Cymorth i Ddioddefwyr

Voice UK
David White YH

*Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid*
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (Kevin Wilkins, Prif Swyddog Cyfiawnder Ieuenctid, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu)
Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant
Elizabeth Banaszak (Rheolwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Casnewydd)
Chris Bell (Cynghorydd Polisi, Shergroup)
Cymdeithas y Plant
Catch-22
Mick Coleman (Rheolwr Tîm Troseddau Ieuenctid, Bolton)
Alex Cosgrove (The Grow Organisation)
Cyngor y Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon)
Anne-Flore Cuccolo (Myfyriwr mewn Supporting Youth Practice ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw)
Heddlu Durham ac Awdurdod Heddlu Durham
Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Swydd Durham
G4S Care & Justice Services (UK) Ltd
Ruth Holmes (Pennaeth Troseddau Ieuenctid ac Atal wedi'i Dargedu (Bwrdeistref Redbridge, Llundain)
Independent Academic Research Studies
JUSTICE
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Swydd Gaerlŷr (ardystiwyd gan Gyngor Sir Caerlŷr)
Bwrdd Troseddwyr Ifanc Dinas Caerlŷr
Cymdeithas Llywodraeth Leol
Ynad
Cymdeithas yr Ynadon
Cyngor Dinas Manceinion
Maer Llundain
Paul McCormack
Dr Margaret McGeehan
Mencap
Eileen Miles (Gweinyddwr Rhanbarthol, Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid)
Dr Judith Mortimore
Cyngor Cenedlaethol y Byrddau Monitro Annibynnol
Paul Ohaera (Rheolwr Tîm Troseddau Ieuenctid, Bradford)
Bill Boyd Pearce
Dacy Pearson (Rheolwr Tîm Troseddau Ieuenctid, Gorllewin Berkshire)

Roland C Powell

Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith

Ymddiriedolaeth Diwygio’r Carchardai

Ombwdsmon y Carchardai a Phrawf

Cymdeithas y Prif Swyddogion Prawf

Yr Arglwydd Ramsbotham

Rhwydwaith Llety Diogel

Yr Ystâd Ddiogel ar gyfer Pobl Ifanc

Chris Small (Rheolwr Tîm Troseddau Ieuenctid Norfolk)

Susan Sheriden (Pennaeth Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Gogledd Swydd Lincoln)

Pwyllgor Sefydlog ar Gyfiawnder Ieuenctid (a Chymdeithas y Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid)

Philip Sutton (Rheolwr Tîm Troseddau Ieuenctid wedi ymddeol)

Lesley Tregear (Rheolwr Tîm Troseddau Ieuenctid, Swydd Warwick)

Voice

Steve Waters (Rheolwr Tîm Troseddau Ieuenctid, De Swydd Gaerloyw)

Llywodraeth Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

David White YH

Penny Wilcox

Jane Willett (Rheolwr Practis a Datblygu, Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, Cyngor Sir Caerloyw)

George Wilson (Uwch Swyddog Carchar)

Rheolwr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

© Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae modd gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau amgen drwy gysylltu â PBB.Consultation@justice.gsi.gov.uk.